

Cynnwys

Cynnwys	1
1.0 Cyflwyniad/Cefndir	3
2.0 Cwmpas ac Ehangder Deddf Trwyddedu 2003.....	5
3.0 Amcanion Trwyddedu	7
4.0 Effaith Gronnol, Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore (EMRO) ac Ardoll Hwyr y Nos (LNL).....	19
5.0 Rheoli Cynllunio ac Adeiladu	24
6.0 Cais am Drwydded / Cais i Amrywio Trwydded	26
7.0 Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TEN)	28
8.0 Trwyddedau Personol	30
9.0 Tystysgrifau Safle Clwb	31
10.0 Atodlen Weithredu	32
11.0 Oriau Gweithredu.....	33
12.0 Gorfodi, Adolygiadau a Phwerau	34
13.0 Y Broses Drwyddedu	36
14.0 Yr Is-bwyllgor Trwyddedu.....	38
15.0 Ystyriaethau Arbennig.....	40
2.0 Y Gofrestr Trwyddedu	40
Atodiad 1 Siart Llif Datrys Problemau	41
Atodiad 3 Amodau Gorfodol.....	44
Atodiad 4 Newidiadau i ddeddfwriaeth.....	47
Atodiad 5 Rhestr termau	52

Rhagair gan Aelod Cabinet Rheoleiddio a Llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1.0 | Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1** Mae Conwy yn Sir ddeniadol i fyw a gweithio ynddi. Mae cysylltiadau cludiant ardderchog gan Gonwy ar hyd ffyrdd a rheilffyrdd. Mae ein heconomi leol yn dibynnu ar dwristiaeth, ac mae sawl safle a drwyddedwyd i werthu alcohol ac adloniant yn chwarae rhan flaenllaw a chynyddol bwysig yn hyn.
- 1.2** Nod y Polisi hwn yw sicrhau diogelwch ac amwynder cymunedau preswyl a hwyluso diwydiant adloniant cynaliadwy. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cydnabod anghenion yr holl drigolion am amgylchedd diogel a dymunol i fyw a gweithio ynddo, a phwysigrwydd safleoedd trwyddedig sy'n cael eu rhedeg yn dda i economi leol fywiog ac amrywiol.
- 1.3** Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn datblygu ac yn hyrwyddo 'Strategaeth Economi Hwyr y Nos' a fydd yn sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr yn ddiogel trwy gydol eu noson allan a'u taith adref.
- 1.4** I gyflawni hyn, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gyda'r holl Awdurdodau Cyfrifol, busnesau lleol, trigolion ac eraill er mwyn sicrhau llwyddiant parhaus y Polisi hwn o ran cyflawni amcanion statudol y Ddeddf.
- 1.5** Mae'r Polisi'n cynnig gwybodaeth a chanllawiau i ymgeiswyr ac unrhyw bartion cysylltiedig ynghylch y modd y bydd Conwy yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â thrwyddedu. Er y bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau, trwy fabwysiadu'r Polisi mae'r Cyngor yn nodi'r ystyriaethau ehangach y bydd yn rhoi sylw iddynt wrth benderfynu ar unrhyw gais am drwydded.
- 1.6** Mae'r Cyngor yn cydnabod bod safleoedd trwyddedig yn gwneud cyfraniad pwysig at yr economi leol. Wrth ystyried unrhyw gais am drwydded rhoddir sylw i ffactorau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys:
 - Yr effaith gyffredinol o ran denu ymwelwyr i'r ardal
 - Unrhyw effaith y gallai'r cais ei chael o ran gwneud yr ardal ehangach yn ddeniadol
 - Cyfleoedd Gwaith
- 1.7** Yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i roi anogaeth i gynnal perfformiadau byw ar ffurf cerddoriaeth, dawnsio a theatr a'r angen i hybu'r rhain er budd diwylliannol ehangach ein cymunedau. Bydd gofal naturiol i osgoi aflonyddwch yn y gymuned yn cael ei gydbwyso bob amser â'r manteision diwylliannol ehangach i'n cymunedau.

- 1.8** Mae'r Cyngor wedi cael trwyddedau safle ar gyfer mannau cyhoeddus, megis promenadau, er mwyn rhoi anogaeth i gynnal gweithgareddau cymunedol.
- 1.9** Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i ddiogelu amwynder trigolion sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn cynnwys y gymuned fusnes, a all ddisgwyl i'r Cyngor helpu i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddeniadol ac yn gynaliadwy i gynnal eu busnes. Wrth ystyried unrhyw gais am drwydded safle, bydd y Cyngor yn rhoi sylw i ffactorau penodol, a bydd y rhain wrth gwrs yn canolbwyntio ar y pedwar Amcan Trwyddedu statudol.
- 1.10** Mae'r Polisi'n ceisio cynnig eglurder i ymgeiswyr, trigolion a deiliaid eiddo eraill a buddsoddwyr, gan eu galluogi i wneud cynlluniau i symud i Gonwy, aros yng Nghonwy neu fuddsoddi yng Nghonwy gyda rhywfaint o sicrwydd.

Ni ddylai cynnwys y Polisi hwn gael ei ddehongli fel arwydd bod modd diystyru neu anwybyddu unrhyw un o ofynion Deddf Trwyddedu 2003 neu ddeddf arall.

Os oes unrhyw amodau wedi'u cynnwys mewn Trwydded Safle neu Dystysgrif Safle Clwb gall un o Swyddogion Awdurdodedig y Cyngor archwilio'r safle ar unrhyw amser rhesymol at ddiben gwirio bod y safle'n cydymffurfio â'r amodau.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori ynghylch y Polisi hwn a'i adolygu o leiaf bob Pum mlynedd. Yn unol â hynny, rhaid adolygu'r Polisi hwn erbyn mis Chwefror 2021 fan bellaf.

2.0 | Cwmpas ac Ehangder Deddf Trwyddedu 2003

- 2.1** Mae'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu wedi cael ei adolygu'n unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a dylai gael ei gymhwyso gan yr Awdurdod Trwyddedu wrth ymdrin ag unrhyw gais sy'n ymwneud â'r gweithgareddau trwyddedadwy a nodir yn Neddf Trwyddedu 2003, sef:
- Adwerthu alcohol
 - Cyflenwi alcohol gan neu ar ran clwb i, neu i archeb gan aelod o'r clwb
 - Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (safle'n cyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth rhwng 23.00 a 05.00 o'r gloch)
 - Darparu adloniant wedi'i reoleiddio (Diffinnir adloniant wedi'i reoleiddio fel unrhyw un o'r canlynol sy'n digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa er mwyn difyrru'r gynulleidfa honno ac a ddarperir ar gyfer aelodau o'r cyhoedd neu ar gyfer aelodau o glwb cymwys a/neu eu gwesteion yn unig neu am dâl gyda'r bwriad o greu elw, ac mae hyn yn cynnwys casglu arian i elusen):
 - perfformio drama
 - dangos ffilm
 - digwyddiad chwaraeon dan do
 - adloniant bocsi neu reslo
 - chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio mewn unrhyw ffordd – perfformio cerddoriaeth fyw o unrhyw fath
 - perfformio dawns
 - adloniant o fath tebyg i'r rhai sy'n cael eu cynnwys o fewn perfformio cerddoriaeth fyw, chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio a pherfformio dawns.
- 2.2** Mae eithriadau penodol i'r diffiniad hwn, sy'n ymwneud â cherddoriaeth achlysurol fyw neu wedi'i recordio, a cherddoriaeth, canu a dawnsio digymell, a nodir yn llawn yn Neddf Trwyddedu 2003, Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 (atodiad 2), Deddf Dadreoleiddio 2015 a Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (adloniant) 2014.
- 2.3** Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel yr Awdurdod Trwyddedu wedi dynodi unrhyw ardal o fewn y Fwrdeistref Sirol yn ardal sydd wedi'i heithrio (dan atodlen 2 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015) o'r gofyniad i fod â thrwydded i ddarparu lluniaeth yn hwyr yn y nos.

- 2.4** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i ystyriaethau ehangach sy'n effeithio ar amwynder unrhyw ardal hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys gadael sbwriel a baeddu, sŵn, troseddau ar strydoedd a gallu isadeiledd ac adnoddau'r sir, ac adnoddau'r heddlu hefyd, i ddygymod â mewnlif o ymwelwyr, yn enwedig yn y nos.
- 2.5** Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi mabwysiadu'r polisi hwn, sy'n nodi'r dull cyffredinol y bydd yn ei ddefnyddio wrth weithredu fel Awdurdod Trwyddedu i ystyried ceisiadau am drwyddedau safle. Wrth fabwysiadu'r polisi hwn, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau.
- 2.6** Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ymgynghori ynghylch y Polisi hwn a'i adolygu o leiaf bob Pum mlynedd. Yn unol â hynny, rhaid adolygu'r Polisi hwn erbyn mis Chwefror 2021 fan bellaf. Gellir gwneud diwygiadau interim iddo, er enghraifft yn dilyn adborth gan y gymuned leol wrth ystyried a yw'r amcanion trwyddedu'n cael eu cyflawni.
- 2.7** Bydd y polisi'n berthnasol fel arfer i unrhyw gais am drwydded a gaiff ei benderfynu ar ôl y dyddiad y bydd y Cyngor yn penderfynu gwneud y polisi'n weithredol, ni waeth ar ba ddyddiad y gwnaed y cais. Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gwyro oddi wrth y polisi, oni bai fod amgylchiadau unigol yr achos yn teilyngu hynny, er budd yr amcanion trwyddedu. Bydd rhesymau llawn yn cael eu rhoi am wyro yn y fath fodd.
- 2.8** Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r categorïau canlynol:
- Trwyddedau Safle
 - Tystysgrifau Safle Clwb
 - Trwyddedau Personol
 - Gweithgareddau Dros Dro a Ganiateir (Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro)

3.0 | Amcanion Trwyddedu

- 3.1** Mae dyletswydd ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gyflawni swyddogaethau'r Ddeddf gyda golwg ar hybu'r Amcanion Trwyddedu a nodir yn y Ddeddf, sydd **yr un mor bwysig â'i gilydd**, ac sydd fel a ganlyn:

Atal Troseddau ac Anhrefn

Diogelwch y Cyhoedd

Atal Niwsans Cyhoeddus

Amddiffyn Plant rhag Niwed

- 3.2** Cydnabyddir mai un ffordd yn unig o sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni yw'r swyddogaeth drwyddedu. Felly bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n parhau i weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol, awdurdodau cyfrifol, busnesau lleol a'r holl randdeiliaid a phartneriaid perthnasol.

- 3.3** Os bydd yn defnyddio'i ddisgresiwn, wrth ystyried y math o weithgareddau y mae trwyddedau ar eu cyfer, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi sylw priodol, ymysg materion eraill, i'r canlynol:

- Lleoliad ac effaith amgylcheddol y gweithgaredd arfaethedig
- Addasrwydd yr ymgeisydd
- Addasrwydd y safle ar gyfer y cais
- Gweithredu a rheoli'r safle
- Monitro, adolygu a gorfodi

- 3.4** Er y bydd y ffactorau hyn yn cael sylw dyledus fel rhan o unrhyw gais, dylid nodi y bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol ym mhob achos:

- Nad yw hawl unrhyw unigolyn neu gorff i wneud cais am amryw fathau o ganiatâd yn cael ei danseilio a bod penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch pob cais yn ôl ei rinweddau.
- Hawl statudol Awdurdodau Cyfrifol neu Bartïon Cysylltiedig i wneud sylwadau perthnasol neu ofyn am adolygiad o unrhyw drwydded neu dystysgrif.

3.5 Prif ystyriaeth y gyfundrefn drwyddedu yw rheoleiddio unigolion, safleoedd a digwyddiadau dros dro ac o ganlyniad bydd unrhyw amodau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Materion sydd o fewn rheolaeth trwyddedeion unigol a phobl eraill y rhoddir caniatâd perthnasol iddynt.
- Y safle a'r lleoedd sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy a'r cyffiniau cyfagos.
- Effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn safle trwyddedig, ar aelodau o'r cyhoedd, sy'n byw neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau beunyddiol arferol yng nghyffiniau'r safle trwyddedig.

3.6 Wrth gyflawni ei swyddogaeth drwyddedu, caiff unrhyw Awdurdod Trwyddedu ei rwymo gan ddeddfwriaeth arall hefyd, er enghraifft:

- Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 a'r gofyniad bod awdurdod lleol yn gwneud popeth y gall yn rhesymol ei wneud i atal troseddau ac anhrefn yn ei ardal leol.
- Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, y rhoddir ei effaith iddo gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddiogelu hawliau unigolion mewn sefyllfaoedd amrywiol.
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
- Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003
- Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014
- Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006
- Deddf Iechyd (Cymru) 2006
- Deddf Gamblo 2005
- Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005
- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

- Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012
- Deddf Cydraddoldeb 2010

Os yw deddf bresennol eisoes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar ymgeiswyr, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod yr un dyletswyddau na rhai tebyg drwy amod.

- 3.7** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio cyflawni dyletswyddau a nodir yn Strategaethau eraill y Llywodraeth, i'r graddau y maent yn effeithio ar amcanion y Ddeddf Trwyddedu. Ceir enghreifftiau o'r Strategaethau hyn isod:
- Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Mynd i'r Afael â Throseddau, Anhrefn a Niwsans sy'n Gysylltiedig ag Alcohol.
 - Cod Ymarfer Gorau Prawf-brynu Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddiol Awdurdodau Lleol a'r Sefydliad Siartredig Safonau Masnachu.
 - Strategaethau Lleihau Niwed Alcohol Cenedlaethol a Lleol
 - Strategaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn Cenedlaethol a Lleol
 - Polisi/Concordat Gorfodi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
 - Cynllun Trafnidiaeth Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- 3.8** Byddai'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn tynnu sylw at fentrau sy'n berthnasol i drwyddedu, er enghraifft:
- Cynlluniau Profi Oedran
 - Teledu Cylch Cyfyng yn gwylio canol trefi. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cefnogi ac yn rhoi anogaeth i ddefnyddio teledu cylch cyfyng ar dir y cyhoedd i roi cymorth i reoli gweithgareddau trwyddedadwy ledled y Fwrdeistref Sirol.
 - Gorchmynion Gwahardd a Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus.
 - Cynllun Gwarchod Tafarndai / Cynllun Gwarchod Siopau Diodydd Trwyddedig - Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y dylai cynlluniau o'r fath roi cefnogaeth ac arweiniad priodol a pherthnasol bob amser er mwyn iddynt gael cymaint o effaith a llwyddiant â phosibl.
 - Meddwl yn Ddiogel / Yfed yn Ddiogel (Fe'u cydgysylltir gan yr Awdurdod Trwyddedu mewn cydweithrediad â'r Heddlu a rhanddeiliaid perthnasol eraill)
 - Braf Bob Nos – Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymrwymedig i hwyluso'r cynllun hwn gyda golwg ar gynnig cymhelliad i ddeiliaid trwydded godi a gwella safonau.
 - Baner Borffor – Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod y cynllun hwn yn cynnig cymhelliad ardderchog i wella economi hwyr y nos.

- 3.9** Nod y broses drwyddedu yw rhoi caniatâd i adwerthu alcohol a chyflenwi alcohol a darparu gweithgareddau trwyddedadwy mewn modd sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd ac nad yw'n niweidiol i drigolion, nac yn arwain at golli amwynder. Dymuniad yr Awdurdod Trwyddedu yw hwyluso safleoedd sy'n cael eu rhedeg a'u rheoli'n dda gyda deiliaid trwydded yn bod yn ystyriol o effaith eu safle ar drigolion lleol.
- 3.10** Yn unol â'r Canllawiau, nid yw'r awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod y Polisi hwn yn fecanwaith ar gyfer rheolaeth gyffredinol ar ymddygiad gwrthgymdeithasol gan unigolion unwaith y maent wedi gadael cyffiniau'r clwb, busnes neu safle trwyddedig sy'n dal y drwydded berthnasol, y dystysgrif berthnasol neu'r caniatâd perthnasol.
- 3.11** Yn dilyn Sylwadau Perthnasol, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu ond yn gwyro oddi wrth y Polisi hwn, os yw'r ymgeisydd yn rhoi tystiolaeth / gwybodaeth foddhaol y bydd yr Amcanion Trwyddedu'n cael eu cyflawni'n llawn. Yn yr achosion lle mae'n gwyro oddi wrth y polisi, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi rhesymau dros wro fel rhan o'i broses benderfynu.
- 3.12** Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddethol amodau priodol o gronfa Amodau'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol wrth ystyried cynnwys yr Atodlen Weithredu i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'r pedwar Amcan Trwyddedu.

Atal Troseddau ac Anhrefn

- 3.13** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, sy'n gosod dyletswydd arno i atal/gostwng troseddau ac anhrefn yn yr ardal. Felly, bydd y Polisi hwn yn ystyried effaith debygol y gyfundrefn drwyddedu ar droseddau ac anhrefn cysylltiedig, yn enwedig wrth ystyried lleoliad yr holl geisiadau arfaethedig am drwyddedau ac i amrywio amodau, eu heffaith a'r modd y cânt eu gweithredu a'u rheoli.
- 3.14** Mae hybu'r amcanion trwyddedu i atal troseddau ac anhrefn yn gosod cyfrifoldeb ar ddeiliaid trwydded i ddod yn bartneriaid allweddol yn y broses o gyflawni'r amcan hwn.
- 3.15** Bydd unrhyw Amodau a gynhwysir mewn Trwydded Safle, Tystysgrif Safle Clwb neu Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro yn adlewyrchu unrhyw strategaeth neu fenter leol i atal troseddau.
- 3.16** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol ac yn rhoi pwys priodol arnynt:
- Sylwadau Perthnasol

- Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003
- Y Datganiad o Bolisi Trwyddedu
- Y camau sy'n angenrheidiol i hybu'r Amcanion Trwyddedu

Cyffuriau

- 3.17** Yn dilyn Sylwadau Perthnasol, mae'n bosibl y bydd yn rhaid gosod amodau ar gyfer mathau penodol o leoliadau i leihau'r posibilrwydd o werthu a defnyddio cyffuriau ac i greu amgylchedd diogelach i'r rhai sydd wedi'u cymryd o bosibl. Ym mhob achos lle caiff amodau eu gosod, byddwn yn gofyn am gyngor y Tîm Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau lleol a Heddlu Gogledd Cymru.
- 3.18** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, gydag arweiniad gan Conwy Ddiogelach, yn cefnogi cynlluniau ymwybyddiaeth o gyffuriau ac atal cyffuriau (gan gynnwys Sylweddau Seicoweithredol Newydd).

Personél Diogelwch Trwyddedig

- 3.19** Mae gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA) rôl bwysig o ran atal troseddau ac anhrefn trwy sicrhau bod personél diogelwch wedi'u hyfforddi a'u trwyddedu'n briodol. Gall ymholiadau penodol neu ymweliadau penodol â safleoedd ddigwydd er mwyn cadarnhau bod Trwyddedau Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn cael eu gweithredu yn y modd cywir ac nid fel offeryn ar gyfer troseddau ac anhrefn megis cochlau ar gyfer gweithgarwch troseddol difrifol a chyfundrefnol. Bydd gweithrediadau ar sail cuddwybodaeth gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, yr Awdurdod Trwyddedu, a / neu Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu cynnal heb rybudd.
- 3.20** Os bydd yn defnyddio'i ddisgresiwn, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried bod angen goruchwyllo rhai safleoedd at ddiben gostwng troseddau ac anhrefn, ac i ddarparu'n gyffredinol ar gyfer gweithredu'r safle'n fwy diogel. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i oruchwylwyr drysau trwyddedig (sydd wedi'u cofrestru gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch) gael eu cyflogi yn y safle naill ai ar bob adeg neu ar yr adegau y mae rhai gweithgareddau trwyddedadwy penodol yn digwydd, gyda'r nifer a'r gymhareb yn cael eu pennu gan yr Awdurdod Trwyddedu. (Nid yw hyn yn cynnwys stiwardiaid / casglwyr gwydrau nad ydynt yn gysylltiedig â diogelwch y safle ac nad yw felly'n ofynnol iddynt gofrestru ag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch).
- 3.21** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog pob safle i ddefnyddio cwmnïau diogelwch sydd wedi'u cymeradwyo dan gynllun Contractwyr Cymeradwy Awdurdod y Diwydiant Diogelwch, gydag ymrwymiad i ddefnyddio contractwyr a gymeradwywyd gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch yn unig ar gyfer digwyddiadau a drefnir neu a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Teledu Cylch Cyfyng

- 3.22** Efallai y bydd Deiliaid Trwydded yn dymuno gosod camerâu i amddiffyn staff, cwsmeriaid ac i atal troseddau ar neu yn agos at y safle. Os bydd yn defnyddio'i ddisgresiwn, gall yr Awdurdod Trwyddedu gynnwys amod mewn trwyddedau sy'n nodi bod yn rhaid gosod system Teledu Cylch Cyfyng at ddiben hybu unrhyw un o'r Amcanion Trwyddedu. Mewn achosion o'r fath dylid nodi y gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried y math o recordiadau ac ansawdd y recordiadau, lleoliad camerâu, y dull o storio recordiadau ac argaeledd recordiadau i'r Awdurdod Trwyddedu a'r Heddlu.

Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos

- 3.23** Bydd angen i safleoedd sy'n gwerthu bwyd neu ddioddydd poeth rhwng 11.00pm a 5.00am fod wedi'u trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu allweddol mewn perthynas â'r gweithgarwch hwn yw atal troseddau ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Lle mae darparu bwyd poeth a diodydd yn weithgaredd eilaidd mewn safle trwyddedig sydd ar agor ar gyfer gweithgareddau eraill, yna bydd y gweithgaredd wedi'i gynnwys yn ddigonol yn amodau'r brif drwydded.

Cynllun Gwarchod Tafarndai a Chynllun Gwarchod Siopau Diodydd Trwyddedig

- 3.24** Byddai'r Awdurdod Trwyddedu'n rhoi anogaeth i gyfranogi'n weithredol mewn cynlluniau o'r fath sy'n cyfrannu at yr amcan trwyddedu sy'n ymwneud ag atal troseddau ac anhrefn.

Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig/Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus.

- 3.25** Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cefnogi'r defnydd o 'orchmynion manau cyhoeddus dynodedig' dan y ddeddfwriaeth berthnasol a bydd yn defnyddio'r pŵer i wneud gorchmynion manau cyhoeddus dynodedig fel offeryn i atal troseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Hyrwyddo Anghyfrifol

- 3.26** Bydd penderfyniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy o ran yr hyn sy'n gyfystyr ac nad yw'n gyfystyr â hyrwyddo anghyfrifol yn cael eu gwneud fesul achos unigol gan ystyried yr holl amgylchiadau a chan gyfeirio at Awdurdodau Cyfrifol eraill pan fo angen.

Diogelwch y Cyhoedd

- 3.27** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno hybu safonau uchel o ran diogelwch y cyhoedd mewn perthynas â safleoedd a gweithgareddau o fewn cwmpas Deddf Trwyddedu 2003.
- 3.28** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod yr Amcan o ran Diogelwch y Cyhoedd yn ymwneud â diogelwch corfforol y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r safle perthnasol ac nid ag Iechyd y Cyhoedd – ymdrinnir â hyn mewn deddfwriaeth arall.
- 3.29** Gellir ymgynghori â'r Adran yn y Cyngor sy'n gorfodi iechyd a diogelwch mewn safleoedd perthnasol fel Awdurdod Cyfrifol a gall yr Adran honno weithredu hefyd fel Pobl Awdurdodedig at ddibenion gorfodi dan Ddeddf Trwyddedu 2003.
- 3.30** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod na fydd materion penodol sy'n codi mewn safleoedd mewn perthynas â mathau penodol o adloniant wastad wedi'u cynnwys yn ddigonol mewn dyletswyddau iechyd a diogelwch cyffredinol ac y gall fod angen cynnwys amodau mewn trwydded/tystysgrif o ganlyniad.
- 3.31** Lle caiff gweithgareddau eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer da bod yr un lefel o fesurau gwarchod iechyd a diogelwch yn cael ei darparu â phe bai perthynas cyflogwr / cyflogai yn bodoli, ni waeth pa un a oes dyletswyddau cyfreithiol llym yn berthnasol dan deddfwriaeth iechyd a diogelwch ai peidio.
- 3.32** Lle y bo'n briodol, ar gyfer digwyddiadau ar raddfa fawr, lle mae gweithgareddau trwyddedadwy'n mynd i fod yn digwydd, byddai'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl bod cynllun rheoli digwyddiad yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno i Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy.
- 3.33** Lle bynnag y bo'n ymarferol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog deiliaid trwydded i ddarparu cyfleusterau sy'n ei gwneud yn bosibl derbyn pobl ag anableddau. Ni fydd unrhyw amodau'n cael eu cymhwyso y gellid eu defnyddio i gyfiawnhau cau unrhyw bobl allan am resymau sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Ni fydd unrhyw amod a gynhwysir mewn trwydded i wahardd anifeiliaid anwes am resymau sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd yn berthnasol i gŵn tywys neu gŵn cymorth.

Diogelwch Tân

- 3.34** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw dyledus i sylwadau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

- 3.35** Gall Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddethol amodau priodol ac angenrheidiol mewn perthynas â materion diogelwch tân mewn ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- 3.36** Yn dilyn cael sylwadau perthnasol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnwys ffigwr mewn trwydded safle / tystysgrif safle clwb sy'n dynodi uchafswm y bobl y gall y safle eu dal er mwyn diogelwch y cyhoedd. Bydd y ffigwr yn cael ei bennu mewn ymgynghoriad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.
- 3.37** Lle mae ymgeiswyr yn dymuno manteisio ar y darpariaethau arbennig yn Adran 177 o'r Ddeddf (dawnsio, cerddoriaeth wedi'i seinchwyddo a heb ei seinchwyddo mewn safle y caniateir i ddim mwy na 200 o bobl fod ynddo ar yr un pryd) gellir gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gadarnhau faint o bobl y mae'r safle'n gallu eu dal.

Iechyd y Cyhoedd

- 3.38** Nid yw Iechyd y Cyhoedd yn amcan trwyddedu eto ond mae'r Awdurdod Trwyddedu yn credu bod iechyd y cyhoedd yn faes a all ychwanegu cryn dipyn at y gyfundrefn drwyddedu o ran anghenion iechyd poblogaethau lleol mewn perthynas ag alcohol. Mae gan gyrff iechyd megis Iechyd y Cyhoedd fynediad unigryw at ddata nad yw ar gael i awdurdodau cyfrifol eraill a all oleuo penderfyniadau trwyddedu. Mae Iechyd y Cyhoedd yn ddefnyddiol ar gyfer darparu tystiolaeth o niweidiau i iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol yn enwedig mewn perthynas â pholisïau effaith gronnol.

Atal Niwsans Cyhoeddus

- 3.39** Os bydd yn defnyddio'i ddisgresiwn bydd yr Awdurdod Trwyddedu, wrth ffurfio barnau gwrthrychol ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â niwsans mewn perthynas â chais am drwydded neu dystysgrif safle neu adolygiad o un o'r rhain, yn defnyddio'r ystyr eang mewn cyfraith gyffredin wrth ystyried materion megis:
- Sŵn o safleoedd
 - Gwastraff
 - Sbwriel
 - Parcio Ceir
 - Llygredd golau
 - Arogleuon niweidiol
- 3.40** Wrth ystyried effaith bosibl safle trwyddedig ar yr ardal gyfagos bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y math o weithgaredd adloniant, yr oriau

gweithredu arfaethedig, faint o bobl y mae'r safle'n eu dal a chymeriad yr ardal a pha mor agos yw'r safle at drigolion lleol.

- 3.41** Er mwyn gorfodi darpariaethau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n ymwneud â niwsans sŵn, bydd gweithdrefnau a phrotocolau gweithio ar y cyd rhwng yr Heddlu, Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Trwyddedu yn sicrhau bod mesurau rheoli digonol yn cael eu defnyddio'n briodol i ddiogelu'r amgylchedd lleol.
- 3.42** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio'r gronfa gydnabyddedig o amodau trwydded yn atodiad 3 i reoli sŵn o safleoedd presennol ac i gynghori datblygwyr ynghylch y mesurau gwanhau sŵn sy'n ofynnol ar gyfer safleoedd newydd. Gellir gosod amodau llymach mewn perthynas â rheoli sŵn mewn ardaloedd lle mae safleoedd yn agos at eiddo preswyl.
- 3.43** Bydd tîm Rheoli Llygredd Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol a bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymgynghori â hwy ynghylch atal niwsans cyhoeddus a gellir cyfeirio at gyhoeddiad y Sefydliad Acwsteg, sef "Good Practice Guide on the Control of Noise from Pubs and Clubs" (rhifyn cyfredol). Gellir cyfeirio hefyd at adroddiad Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), sef "Implications for Noise Disturbance Arising from the Liberalisation of Licensing Laws".
- 3.44** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn taro cydbwysedd rhwng y potensial i gyfyngu ar dwrw mewn cymdogaethau ar y naill law a'r angen i roi anogaeth ar gyfer perfformiadau byw ar ffurf cerddoriaeth, dawnio a theatr ac i hybu'r rhain ar y llaw arall.
- 3.45** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y pwerau sydd gan y Cyngor a'r Heddlu i gyflwyno Gorchymyn Cau i safleoedd trwyddedig unigol sy'n achosi niwsans o ganlyniad i sŵn sy'n cael ei greu a byddai'n annog yr Awdurdodau Cyfrifol perthnasol i ddefnyddio pwerau o'r fath lle bynnag y bo'n briodol a hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu os gweithredir yn y fath fodd.
- 3.46** Mae'r pwerau uchod ar gael i Swyddogion Rheoli Llygredd hefyd dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Bydd pwerau o'r fath yn cael eu defnyddio pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- 3.47** Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod amodau ar safle trwyddedig nad yw'r trwyddedai'n gallu eu rheoli'n uniongyrchol, nac ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig â chyffiniau'r safle.
- 3.48** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau neu adolygiadau o drwyddedau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio synnwyr cyffredin wrth ystyried a yw'r unigolyn neu'r busnes sy'n gwneud sylwadau wedi'i leoli "yng

ngyhffiniau” y safle dan sylw a’i bod felly’n debygol y bydd anhrefn a thwrw’n effeithio’n uniongyrchol arno.

- 3.49** Mater o gyfrifoldeb personol yw sŵn a thwrw sy’n deillio o ymddygiad cwsmeriaid sydd wedi gadael y safle ac ymdrinnir â’r rhain trwy gamau gan yr Heddlu i orfodi’r gyfraith arferol mewn perthynas ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 3.50** Yn dilyn cyflwyno Deddf Iechyd 2006 dylai deiliaid trwydded fod yn ymwybodol o’r potensial ar gyfer niwsans cyhoeddus, arogleuon niweidiol a thwrw pan fo cwsmeriaid yn ymgynnull y tu allan i safle i ysmegu a dylent roi sylw dyledus i’r Amcanion Trwyddedu wrth gynllunio, cynnal a chadw a rheoli ardaloedd o’r fath.

Amddiffyn Plant rhag Niwed

- 3.51** Mae Amddiffyn Plant rhag Niwed yn cynnwys amddiffyn plant rhag niwed moesol, seicolegol a chorfforol. Yr elfen allweddol yw amddiffyn plant rhag camfanteisio rhywiol, dod i gysylltiad ag alcohol cyn pryd, iaith gref a rhegfeydd rhywiol.
- 3.52** Mae’r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr amrywiaeth fawr o safleoedd y gellir ceisio trwyddedau ar eu cyfer. Mae’r rhain yn cynnwys: theatrau, sinemâu, bwytai, tafarndai, clybiau nos, caffis, safleoedd cludfwyd, neuaddau cymunedol ac ysgolion.
- 3.53** Nid yw’r Ddeddf Trwyddedu yn atal plant rhag cael mynediad rhydd i safleoedd sy’n gwerthu alcohol i’w yfed ar y safleoedd hynny, er bod yr Awdurdod Trwyddedu, yn dilyn cael Sylwadau Perthnasol, yn gallu gosod amodau sy’n cyfyngu ar fynediad gan blant i safleoedd, lle ystyrir bod hynny’n angenrheidiol i atal niwed i blant. Lle ceir materion sy’n achosi pryderon difrifol a lle mae’n bosibl na fyddai cyfyngu ar fynediad yn sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag niwed, dylid cau plant allan. Mae enghreifftiau o bethau a allai achosi pryderon o’r fath yn cynnwys:
- Lle mae aelodau o’r staff presennol wedi’u cael yn euog o weini alcohol i rai dan oed neu lle mae gan y safle enw fel rhywle lle mae yfed dan oed yn digwydd
 - Lle mae’n hysbys bod cysylltiad â chymryd neu werthu cyffuriau
 - Lle mae elfen gref o gamblo ar y safle (ond nid dim ond presenoldeb nifer fach o beiriannau hapchwarae sy’n rhoi gwobrau ariannol)
 - Lle mae adloniant neu wasanaethau ar gyfer oedolion yn unig neu o natur rywiol yn cael eu darparu’n fynych, e.e. staff bar bronnoeth, strip-bryfocio, dawnsio glin, dawnsio bwrdd neu ddawnsio polyn, iaith neu ddelweddu cryf a ffiائد.

- Lle cyflenwir alcohol i'w yfed ar y safle fel unig neu brif ddiben y gwasanaethau a ddarperir.

Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn drosedd caniatáu i blant dan 16 sydd heb oedolyn gyda hwy fod yn bresennol ar safle a ddefnyddir yn unig neu yn bennaf i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle hwnnw.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi i'r term "yn unig neu yn bennaf" ei ystyr arferol a naturiol yng nghyd-destun yr amgylchiadau arbennig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried rhinweddau unigol pob cais.

3.54 Lle cafwyd Sylwadau Perthnasol a lle ystyrir ei bod yn angenrheidiol cyfyngu ar fynediad gan blant i'w hamddiffyn rhag niwed yna gellir cynnwys amodau yn y drwydded. Gall amodau o'r fath gynnwys:

- Gofynion i ddangos cardiau profi oedran
- Cyfyngu ar yr oriau pan all plant fod yn bresennol
- Cyfyngiadau oedran (o dan 18)
- Cyfyngiadau neu gau allan pan fo rhai gweithgareddau penodol yn digwydd
- Cyfyngiadau neu gau allan mewn rhannau o'r safle
- Cau rhai dan 18 allan o'r safle yn llwyr pan fo unrhyw weithgareddau trwyddedadwy'n digwydd
- Gofynion ar gyfer goruchwyliaeth gan oedolyn

3.55 Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gosod amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol bod gan blant fynediad at safle, a lle nad oes unrhyw amodau na chyfyngiadau'n berthnasol, mater i'r safle unigol benderfynu yn ei gylch yn ôl ei ddisgresiwn yw mynediad gan blant i'r safle hwnnw.

3.56 Lle caniateir dangos ffilmiau, bydd yr awdurdod yn disgwyl i'r safle gydymffurfio â chyfyngiadau oedran yn unol ag argymhellion Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain. Ar gyfer safleoedd sy'n derbyn plant i weld unrhyw ffilm, dim ond mewn achosion eithriadol y bydd yr awdurdod yn ystyried amrywiadau i'r rheol gyffredinol hon (cyfeirir at bolisi dosbarthiad ffilmiau CBSC).

3.57 Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y gofyniad yn y Ddeddf i blant dan 16 oed fod ag oedolyn yn gwmni iddynt. Dan amgylchiadau lle mae niferoedd mawr o blant heb oedolion yn gwmni iddynt yn debygol o fod yn bresennol ar rai safleoedd trwyddedig penodol, er enghraifft mewn sioe i blant neu bantomeim, er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd a bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, bydd y gymhareb sy'n ofynnol o ran oedolion i oruchwyllo plant yn unol ag Atodiad H, Canllawiau a

Gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 neu gymhareb arall y bydd awdurdod cyfrifol o bosibl yn ei hargymell.

- 3.58** Ni ddylid dangos unrhyw ffilmiau mewn safle trwyddedig sy'n debygol o:
- Arwain at anhrefn
 - Ysgogi casineb neu drais tuag at unrhyw garfan ymhlith y cyhoedd ar sail lliw, hil neu darddiad ethnig neu genedligrwydd, iaith, anabledd, daliadau crefyddol, cyfeiriadedd rhywiol neu rywedd.
- 3.59** Gan gyfeirio'n gyffredinol at amddiffyn plant rhag niwed, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried mai'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Plant yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol yw'r Awdurdod Cyfrifol sy'n gymwys i ymateb mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â phlant a niwed.
- 3.60** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y dylai atodlenni gweithredu a gyflwynir fel rhan o geisiadau gynnwys digon o wybodaeth fanwl er mwyn gallu ffurfio barn briodol o ran pa fesurau all fod eu hangen i amddiffyn plant rhag niwed.

Adloniant ar gyfer Oedolion

- 3.61** Lle mae unrhyw weithgaredd a gynigir dan y drwydded neu'r hysbysiad digwyddiad dros dro yn cynnwys rhai sydd o natur rywiol (strip-bryfocio, bwrlésg, gwasanaeth gan staff bronnoeth, dawnsio bwrdd/glin, sioeau sbecian neu sioeau rhyw byw) bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y cynnydd posibl yn y risg i'r amcanion trwyddedu.
- 3.62** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pa mor agos yw manau addoli crefyddol, sefydliadau addysg plant a/neu unrhyw safleoedd sy'n cynnig gwasanaethau neu gymorth i blant wrth ystyried unrhyw gais sy'n ymwneud ag adloniant rhywiol.
- 3.63** Mae'n rhaid i unrhyw safle a ddefnyddir ar fwy na deuddeg achlysur mewn cyfnod o ddeuddeg mis ar gyfer unrhyw adloniant rhywiol perthnasol wneud cais a chael ei drwyddedu fel lleoliad adloniant rhywiol hefyd.

4.0 | Effaith Gronnol, Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore (EMRO) ac Ardoll Hwyr y Nos (LNL).

Effaith Gronnol

- 4.1** Mae a wnelo hyn â'r effaith bosibl ar hybu'r amcanion trwyddedu pan fo nifer sylweddol o safleoedd trwyddedig wedi'u cydgrynhai mewn un ardal.
- 4.2** Nid yw'r Awdurdod Trwyddedu o'r farn, ar adeg cyhoeddi'r Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu, bod ardaloedd yng Nghonwy lle mae effaith gronnol yn broblem sylweddol. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn dymuno aros yn effro i'r posibilrwydd y gallai effaith o'r fath ddigwydd.
- 4.3** Lle mae ardal arbennig yn dod yn orlawn o safleoedd trwyddedig gan ei gwneud yn ganolbwynt i grwpiau mawr o bobl ymgynnull, gallai hyn greu problemau eithriadol o ran anhrefn, sŵn a niwsans o fath arall ac o dan amgylchiadau o'r fath fe allai penderfyniad i roi Trwyddedau Safle neu Dystysgrifau Safle Clwb pellach danseilio'r Amcanion Trwyddedu.
- 4.4** Er gwaethaf y pryderon hyn mae'n rhaid ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau unigol. Lle mae gwrthwynebydd yn ceisio dangos y byddai rhoi trwydded neu dystysgrif yn achosi effaith gronnol sy'n tanseilio un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu, bydd y canlynol yn berthnasol:
- 4.5** Mewn achosion lle mae gwrthwynebwyr yn ceisio dangos y dylid gwrthod cais am y rheswm y byddai'n arwain neu'n cyfrannu ymhellach at effaith gronnol a fyddai'n tanseilio un neu fwy o'r Amcanion Trwyddedu, dylai'r gwrthwynebydd:
- Nodi ffiniau'r ardal yr honnir bod problemau'n deillio ohoni.
 - Darparu manylion llawn a thystiolaeth sy'n profi difrifoldeb y niwsans a'r anhrefn a achosir yn yr ardal.
 - Nodi'r amcan(ion) trwyddedu yr honnir y bydd(ant) yn cael ei/eu d/tanseilio gan roi sylw penodol i'r canlynol:
 - Y ffigur meddiannaeth ar gyfer y safle arfaethedig
 - Natur y gweithgareddau trwyddedig a fydd yn cael eu cyflawni ar neu yn y safle.
- 4.6** Os ceir gwrthwynebiad dan baragraff 4.5 uchod, a bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi'i argyhoeddi bod pryder difrifol neu gronig ynghylch

niwsans ac anhrefn mewn ardal arbennig a'i fod wedi gwrthod cais ar sail Effaith Gronnol bydd yr ardal yn cael ei datgan yn 'Ardal dan Straen'. Wrth wneud hynny bydd yr Awdurdod Trwyddedu:

- Yn dilyn y gweithdrefnau statudol a nodir mewn Canllawiau a gyhoeddwyd dan Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003.
- Yn nodi ffiniau'r ardal
- Yn nodi'r gweithgareddau trwyddedadwy sy'n achosi'r niwsans a/neu'r anhrefn
- Yn monitro ac yn adolygu'r 'Ardal dan Straen'

4.7 Ni fydd trwyddedau safle newydd yn cael eu rhoi ar gyfer y gweithgareddau a nodwyd fel y rhai sy'n achosi niwsans a/neu ddrw mewn Ardaloedd dan Straen ac eithrio:

- Lle na cheir gwrthwynebiadau i'r cais, neu
- Lle na fydd rhoi trwydded yn tanseilio'r Amcanion Trwyddedu.

4.8 Wrth ystyried ceisiadau o'r fath bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw arbennig i'r canlynol:

- Y ffigwr meddiannaeth ar gyfer y safle arfaethedig.
- Pa mor agos yw'r safle at safleoedd eraill yn yr ardal sydd wedi'u trwyddedu ar gyfer gweithgareddau tebyg a ffigyrau meddiannaeth y safleoedd hynny.
- Pa un a fydd y safle arfaethedig yn gweithredu fel safle yn lle safleoedd eraill yn yr Ardal nad oes trwydded ganddynt mwyach.
- Y dulliau rheoli arfaethedig a nodir yng nghynllun gweithredol yr ymgeiswyr.
- Yr oriau gweithredu arfaethedig.
- Darpariaeth cludiant ar gyfer yr ardal.

4.9 Ni ellir defnyddio'r ffactorau uchod fel cyfiawnhad dros ddirymu trwydded bresennol. Os ceir sylwadau am safleoedd trwyddedig presennol mewn perthynas â materion ac eithrio effaith gronnol ac sy'n tanseilio'r Amcanion Trwyddedu yna gellir cymryd camau gweithredu priodol.

- 4.10** Ni fydd ceisiadau am amrywiadau i Drwyddedau Safle presennol mewn Ardaloedd dan Straen yn cael eu caniatáu oni bai fod yr addasiadau hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar fater Effaith Gronnol yn yr Ardal dan Straen neu'n tanseilio'r Amcanion Trwyddedu fel arall (Enghraifft o sefyllfa lle gallai addasiad effeithio'n uniongyrchol ar fater effaith gronnol fyddai lle cafwyd cais i godi estyniad ar y safle a chynyddu lefel meddiannaeth y safle'n sylweddol).

Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore (EMRO)

- 4.11** Mae diwygiadau i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi pwerau dewisol i Awdurdod Trwyddedu gyfyngu ar werthu alcohol ar amser penodedig rhwng hanner nos a 6am trwy gyflwyno Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore
- 4.12** Mae Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â lefelau uchel o droseddau ac anhrefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans sy'n gysylltiedig ag alcohol mewn ardal benodedig. Yn wahanol i Ardoll Hwyr y Nos, nid oes eithriadau ac felly, mae'n rhaid i'r penderfyniad i roi un ar waith fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Cyn rhoi gorchmyn o'r fath ar waith, mae'n rhaid bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi'i argyhoeddi y byddai'n briodol i hybu'r Amcanion Trwyddedu a dylai hefyd ystyried yr effaith bosibl ar ddeiliaid trwydded safle/tystysgrif safle clwb.
- 4.13** Cyn ystyried Gorchmynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried a fyddai unrhyw fesurau eraill yn effeithiol ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n bodoli.
- Polisi Effaith Gronnol
 - Adolygiad o safle/safle clwb
 - Dull amlasiantaeth ar gyfer datrys problemau
 - Darparu Teledu Cylch Cyfyng stryd, symudol neu bersonol (corff-gamerâu)
 - Mynd ati mewn ffordd wedi'i thargedu i orfodi deddfwriaeth sylfaenol berthnasol
 - Cyflwyno Ardoll Hwyr y Nos
 - Rheolaeth stryd (marsialiaid tacsï, cau strydoedd a.y.b.).
 - Rheolaeth gynllunio

- 4.14** Gall Gorchymyn Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore fod yn berthnasol i ardal neu stryd benodedig, gall fod yn berthnasol ar amseroedd penodedig neu ddyddiau penodedig o'r wythnos a gall fod yn effeithiol ar adegau penodol o'r flwyddyn, neu gellir ei roi ar waith yn barhaus.
- 4.15** Mae'n rhaid i'r penderfyniad i roi Gorchymyn Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore gael ei wneud gan Gyfarfod y Cyngor ac mae'n rhaid iddo gael ei adolygu bob hyn a hyn er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn briodol i'r Amcanion Trwyddedu. Gellir amrywio neu ddirymu gorchymyn hefyd, gan ddefnyddio'r un broses ag a ddefnyddir i fabwysiadu un.
- 4.16** Nid yw Gorchymynion Cyfyngu yn Gynnar yn y Bore yn effeithio ar yr oriau awdurdodedig ar gyfer adloniant wedi'i reoleiddio, lluniaeth yn hwyr yn y nos, safleoedd sy'n cynnig llety dros nos (gwasanaeth ystafell a barrau mini) ac ni ellir eu rhoi ar waith ar Nos Galan na Dydd Calan.
- 4.17** Mae Ardoll Hwyr y Nos, a gyflwynwyd trwy ddarpariaeth yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, yn opsiwn sy'n galluogi awdurdodau trwyddedu i godi cyfraniad tuag at gost plismona economi hwyr y nos trwy godi ardoll ar safleoedd trwyddedig sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol yn hwyr yn y nos.
- 4.18** Wrth gyflwyno Ardoll Hwyr y Nos, ni all awdurdod trwyddedu ddewis pa ardaloedd fyddai'r ardoll yn berthnasol iddynt; pe bai'n cael ei chyflwyno, byddai'n berthnasol ar draws yr ardal gyfan ac i bob safle trwyddedig, gan gynnwys siopau diodydd trwyddedig (ni fyddai'n effeithio ar ddigwyddiadau dros dro). Fodd bynnag, gall yr awdurdod bennu'r cyfnod pan fyddai'r ardoll yn berthnasol bob nos rhwng hanner nos a 6am.
- 4.19** Mae gan yr Awdurdod ddisgresiwn hefyd i benderfynu pa safleoedd sy'n gymwys ar gyfer esemptiad o'r ardoll o'r categorïau canlynol:
- Safleoedd â llety dros nos
 - Theatrau a sinemâu
 - Neuaddau bingo
 - Safleoedd cymunedol a chlybiau chwaraeon amatur
 - Tafarndai ym mhentrefi'r sir
 - Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS)
- 4.20** Byddai gan ddeiliaid trwydded safle y mae'r ardoll yn effeithio arnynt hawl i gyflwyno cais i amrywio eu horiau'n rhad ac am ddim pe baent yn dymuno osgoi bod yn un o'r safleoedd y mae'r ardoll yn effeithio arnynt

- 4.21** Caiff y swm sy'n daladwy o fewn ardoll hwyr y nos ei bennu ar gyfradd genedlaethol ac, yn yr un modd â ffi flynyddol y drwydded, byddai'n cael ei gyfrifo yn ôl gwerth ardrethol, gyda ffi'r ardoll yn cael ei chasglu ochr yn ochr â ffi flynyddol y drwydded.
- 4.22** Gall yr Awdurdod Trwyddedu gynnig gostyngiad hyd at 30% o'r Ardoll i unrhyw safleoedd sy'n dangos arfer da neu'n chwarae rhan weithredol yn y Cynllun Brاف Bob Nos neu'r Cynllun Gwarchod Tafarndai.
- 4.23** Pan gaiff ei chyflwyno, mae ardoll yn cynnwys yr holl ardaloedd ac nid dim ond y safleoedd hynny a all fod yn gysylltiedig â phroblemau, neu'r safleoedd hynny o fewn unrhyw ardal bosibl sydd dan straen oherwydd effaith gronnol. Felly mae'n rhaid ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cyflwyno ardoll ac os caiff ei chyflwyno, mae'n rhaid iddi gael ei mabwysiadu yng Nghyfarfod y Cyngor.

5.0 | Rheoli Cynllunio ac Adeiladu

- 5.1** Dylai ceisiadau am drwyddedau safle ar gyfer safleoedd masnachol parhaol gael eu gwneud fel arfer gan fusnesau â chaniatâd cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, gall ceisiadau am drwydded neu ddatganiad dros dro gael eu gwneud cyn bod unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol wedi cael ei geisio neu wedi cael ei roi gan yr awdurdod cynllunio.
- 5.2** Caiff polisiâu cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu nodi yng Nghynllun Datblygu Lleol Conwy.
- 5.3** Mae dau awdurdod cynllunio lleol â chyfrifoldebau cynllunio statudol o fewn y Fwrdeistref Sirol:
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Pob ardal yn sir Conwy sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri
 - Parc Cenedlaethol Eryri – pob ardal o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol
- 5.4** Mae'r cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu'n golygu ystyried materion gwahanol (ond cysylltiedig, serch hynny). Gan hynny, ni ddylai ceisiadau am drwyddedau ailadrodd proses y cais cynllunio ac ni ddylai penderfyniadau a wnaed gan bwyllgor cynllunio'r awdurdod lleol neu'r Arolygiaeth Gynllunio ar apêl ddylanwadu arnynt, ac ni ddylai'r gwrthwyneb ddigwydd ychwaith.
- 5.5** Pe bai'r awdurdod trwyddedu'n caniatáu amrywiad i drwydded sy'n golygu gwneud addasiad sylweddol i adeilad ni fyddai hynny'n golygu nad oes angen i'r ymgeisydd wneud cais am ganiatâd cynllunio (Caniatâd Adeilad Rhestredig lle y bo'n berthnasol), na chymeradwyaeth Rheoli Adeiladu.
- 5.6** Ceir amgylchiadau hefyd pan fo awr derfynol ar gyfer defnyddio'r safle at ddibenion masnachol wedi cael ei phennu fel amod mewn caniatâd cynllunio. Lle mae'r oriau hyn yn wahanol i'r oriau trwyddedig, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ymlynu wrth yr amser cau cynharaf. Gellid cymryd camau gorfodi dan ddeddfwriaeth gynllunio yn erbyn safleoedd sy'n gweithredu'n groes i'w caniatâd cynllunio.
- 5.7** Mae'r Awdurdod Cynllunio yn awdurdod cyfrifol dan y Ddeddf Trwyddedu a chan hynny gall wneud sylwadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau cyn belled â'u bod yn ymwneud â'r amcanion trwyddedu.
- 5.8** Mae rheoliadau adeiladu'n cwmpasu amrywiaeth o faterion a all gyfrannu'n uniongyrchol at yr amcanion trwyddedu, gan gynnwys diangfeydd, cyfanrwydd strwythurol, hygrychedd a diogelwch y cyhoedd. Gellir ystyried Cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu neu Dystysgrif Cydymffurfio â

Rheoliadau Adeiladu a Thystysgrif Cwblhau cyn defnyddio'r safle ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.

- 5.9** Lle bynnag y bo'n ymarferol bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog deiliaid trwydded/tystysgrif a hysbysiad i ddarparu cyfleusterau priodol i bobl ag anableddau fynd i mewn ac allan, a bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw dyledus i Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ni ellir cynnwys amodau mewn unrhyw drwydded, tystysgrif neu hysbysiad sy'n cau unrhyw bobl allan ar sail diogelwch y cyhoedd.

6.0 | Cais am Drwydded / Cais i Amrywio Trwydded

- 6.1** Yn niffyg unrhyw Sylwadau Perthnasol mewn perthynas ag unrhyw gais a gyflwynir i'r Awdurdod Trwyddedu, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i roi'r drwydded neu'r dystysgrif gydag amodau sy'n gyson â'r Atodlen Weithredu, ac unrhyw Amodau Gorfodol a ragnodir yn Neddf Trwyddedu 2003 yn unig. Bydd hyn yn berthnasol i unrhyw geisiadau a wneir mewn perthynas ag ardal a ddynodwyd yn Ardal dan Straen hefyd.
- 6.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried unrhyw ddiffyg cydymffurfio â gofynion statudol eraill a ddygir i'w sylw, yn enwedig lle mae hyn yn tansilio'r Amcanion Trwyddedu, gan y gall diffyg cydymffurfio â gofynion statudol eraill ddangos bod y safle'n anaddas ar gyfer y gweithgareddau a gynigir neu nad yw'r modd y mae'r safle'n cael ei reoli'n ddigonol i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed neu niwsans.
- 6.3** Wrth ystyried pob cais am drwydded newydd neu i amrywio trwydded, os nad yw'r ymgeisydd wedi rhoi'r wybodaeth yn wirfoddol yn ei Atodlen Weithredu ac yn dilyn cael Sylwadau Perthnasol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn eu hasesu yng ngoleuni'r Amcanion Trwyddedu a gall ystyried unrhyw un o'r canlynol:
- Y camau y mae'r ymgeisydd wedi'u cymryd neu'n eu cynnig er mwyn atal sŵn a dirgryndod rhag dod o'r safle, gan gynnwys cerddoriaeth, sŵn o offer awyru, a lleisiau pobl. Gall mesurau o'r fath gynnwys gosod mesurau senglôsio, system aerdymheru, lobiau acwstig a dyfeisiau cyfyngu ar sain.
 - Y camau y mae'r ymgeisydd wedi'u cymryd neu'n eu cynnig er mwyn atal twrw gan gwsmeriaid sy'n cyrraedd neu'n gadael y safle.
 - Y camau y mae'r ymgeisydd wedi'u cymryd neu'n eu cynnig eu cymryd i atal ciwiau neu, os yw ciwiau'n anochel, i ddargyfeirio ciwiau oddi wrth safleoedd cyfagos, neu i reoli'r ciw mewn ffordd arall i atal twrw neu rwystr.
 - Y camau y mae'r ymgeisydd wedi'u cymryd neu'n eu cynnig eu cymryd er mwyn sicrhau bod staff neu asiantau'n gadael y safle'n dawel.
 - Y trefniadau a wnaed neu a gynigir ar gyfer parcio gan gwsmeriaid, ac effaith parcio ar drigolion lleol.
 - Pa un a oes darpariaeth ddigonol o ran cludiant cyhoeddus ar gyfer cwsmeriaid.
 - Pa un a yw tacsis a cherbydau hurio preifat sy'n gwasanaethu'r safle'n debygol o darfu ar drigolion lleol.

- Pa un a yw llwybrau i ac o'r safle ar droed neu mewn car neu gerbydau gwasanaeth neu gerbydau danfon nwyddau'n mynd heibio safleoedd preswyl.
- Pa un a yw mesurau eraill i atal niwsans wedi cael eu hystyried, megis defnyddio Teledu Cylch Cyfyng neu gyflogi personél diogelwch a drwyddedwyd gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch.
- Y mesurau a gynigir er mwyn atal pobl rhag cymryd neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys unrhyw weithdrefnau chwilio.
- Y tebygolrwydd y byddai unrhyw drais, anhrefn gyhoeddus neu broblem plismona'n codi pe rhoddid trwydded.
- Y mesurau a gynigir i atal pobl rhag defnyddio a/neu werthu nwyddau anghyfreithlon, ffug neu wedi'u dwyn.
- Os yw'r ymgeisydd wedi dal trwydded yn flaenorol yn y Sir, manylion unrhyw gamau gorfodi a oedd yn gysylltiedig â'r safle.
- Unrhyw rybuddion ffurfiol, ataliadau dros dro a dirymiadau a weithredwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.
- Pa un a fyddai'r safle'n achosi mwy o broblemau o ran storio neu waredu gwastraff, neu sbwriel ychwanegol yng nghyffiniau'r safle.
- Sylwadau gan Awdurdodau Cyfrifol.
- Sylwadau gan bartïon cysylltiedig.

Mân Amrywiadau

- 6.4** Gall deiliad trwydded safle / tystysgrif safle clwb wneud cais dan y weithdrefn 'mân amrywiadau' am fân amrywiadau na fyddant o bosibl yn effeithio'n andwyol ar yr amcanion trwyddedu. Nid oes hawl i wrandawriad; fodd bynnag, os gwrthodir y cais, gellir gwneud cais llawn.
- 6.5** Mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried effaith y mân amrywiad, a phenderfynu a oes rhaid ymgynghori ag unrhyw Awdurdodau Cyfrifol.

Ffi Flynyddol

- 6.6** Er bod trwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb yn cael eu rhoi am gyfnod amhenodol, mae'n ofynnol i ddeiliaid trwydded dalu ffi flynyddol i'r Awdurdod Trwyddedu. Yn ystod 2012, fe wnaeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ddiwygio Deddf Trwyddedu 2003 i osod gofyniad ar Awdurdodau Trwyddedu i atal trwyddedau safle lle nad yw'r ffioedd blynyddol wedi cael eu talu.

7.0 | Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro (TEN)

- 7.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynhyrchu cyhoeddusrwydd lleol eglur a dealladwy am ei ddull o ymdrin â gweithgareddau a ganiateir dros dro. Yn fyr, digwyddiadau yw'r rhain sy'n para am lai na 168 awr ac sydd â llai na 500 o bobl yn dod iddynt.
- 7.2** Gall yr Heddlu a gwasanaeth Iechyd y Cyhoedd wrthwynebu cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro o fewn ffenestr o dridiau wedi iddo gael ei gyflwyno.
- 7.3** Bydd llawer o ddigwyddiadau lleol yn cael eu trefnu gan wirfoddolwyr neu bwyllgor clwb neu gymdeithas. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ei bod yn arfer da bod yr un lefel o fesurau gwarchod iechyd a diogelwch yn cael ei darparu â phe bai perthynas cyflogwr / cyflogai yn bodoli, ni waeth pa un a oes dyletswyddau cyfreithiol llym yn berthnasol dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ai peidio.
- 7.4** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn annog trefnwyr digwyddiadau dros dro i geisio cyngor / gwybodaeth gan Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Conwy.
- 7.5** Er nad yw'r Awdurdod Trwyddedu yn gallu cynnwys unrhyw gyfyngiadau mewn perthynas â Digwyddiadau Dros Dro, mae'n llwyr ddisgwyl i drefnwyr roi ystyriaeth ddyledus i drigolion lleol a'r rhai sy'n dod i ddigwyddiadau, mewn meysydd megis:
- Iechyd a Diogelwch
 - Llygredd Sŵn
 - Defnyddio Strwythurau Dros Dro
 - Cau Ffyrdd
 - Defnyddio Pyrotechneg neu Dân Gwyllt
 - Rheoli Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro Safonol

- 7.6** Mae'n rhaid rhoi rhybudd o leiaf ddeg diwrnod gwaith ymlaen llaw i'r Awdurdod Trwyddedu ynghylch digwyddiadau dros dro, fodd bynnag byddai'n well rhoi'r rhybudd cynharaf posibl. Mae "rhybudd o leiaf ddeg diwrnod gwaith ymlaen llaw" yn golygu deg diwrnod gwaith heb gynnwys y dyddiad y daw'r rhybudd i law, a'r diwrnod y mae'r digwyddiad yn dechrau. Nid yw "diwrnod gwaith" yn cynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Nadolig,

Dydd Gwener y Groglith na Gwyliau Banc. (Nid oes disgresiwn gan yr Awdurdod Trwyddedu mewn perthynas â graddfeydd amser statudol).

- 7.7** Lle mae'r Heddlu neu gorff lechyd y Cyhoedd yn gwrthwynebu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, gall yr ymgeisydd gytuno i addasu'r Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro. Os na ddoir i gytundeb, bydd gwrandawriad gan yr Isbwyllgor Trwyddedu yn cael ei drefnu. Gall y panel benderfynu gosod amodau neu gyflwyno Gwrth-hysbysiad i atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal.

Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro Hwyr

- 7.8** Gellir rhoi Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro Hwyr hyd at bum niwrnod gwaith ond yn ddim cynharach na naw diwrnod gwaith cyn bod y digwyddiad i fod i gael ei gynnal.
- 7.9** Lle mae'r Heddlu neu gorff lechyd yr Amgylchedd yn gwneud cais am Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro Hwyr, nid oes darpariaeth ar gyfer gwrandawriad ac mae'n rhaid i'r Awdurdod gyflwyno Gwrth-hysbysiad i atal y digwyddiad rhag cael ei gynnal.

8.0 | Trwyddedau Personol

- 8.1** Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos dogfen ddiweddar (un mis) sy'n manylu ar ddatgeliad cofnodion troseddol sylfaenol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr o awdurdodaethau tramor wneud datganiad clir i ddynodi pa un a'u cafwyd yn euog ai peidio y tu allan i'r Deyrnas Unedig o drosedd perthnasol neu drosedd cyfatebol.
- 8.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnal cyswllt agos â'r Heddlu pan geir fod gan ymgeisydd euogfarn heb ei disbyddu am drosedd perthnasol a ddiffinnir yn y Ddeddf.
- 8.3** Os nad yw Heddlu Gogledd Cymru yn gwrthwynebu cais, mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu roi'r drwydded.
- 8.4** Nid yw trwyddedau personol yn dod i ben a byddant yn dal i fod yn ddilys nes eu bod yn cael eu hildio, eu hatal neu eu dirymu.

9.0 | Tystysgrifau Safle Clwb

- 9.1** Mae Adran 62 o'r Ddeddf Trwyddedu yn nodi'r amodau cyffredinol y mae'n rhaid i sefydliad ag o leiaf 25 o aelodau sydd wedi dod ynghyd at ddibenion cymdeithasol, chwaraeon neu wleidyddol penodol gwrdd â hwy i fod yn glwb cymhwysol. Dim ond clybiau cymhwysol all wneud cais am Dystysgrif Safle Clwb.
- 9.2** Mae Tystysgrif Safle Clwb yn darparu awdurdodiad i gyflenwi alcohol a darparu adloniant wedi'i reoleiddio er budd aelodau a'u gwsteion bona fide yn unig. Os yw safle'n dymuno darparu gweithgareddau trwyddedadwy ar gyfer pobl nad ydynt yn aelodau neu'r cyhoedd yn gyffredinol, bydd angen iddo wneud hynny trwy Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro neu Drwydded Safle. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnal cyswllt agos â'r Heddlu pan geir fod gan ymgeisydd euogfarn heb ei disbyddu am drosedd perthnasol a ddiffinnir yn y Ddeddf.
- 9.3** Mae rhoi Tystysgrif Safle Clwb yn rhoi rhai manteision i'r clwb cymhwysol:
- Cyflenwi alcohol i aelodau heb y gofyniad i fod â Goruchwylydd Safle Dynodedig
 - Darparu Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos i aelodau heb yr angen am awdurdodiad ychwanegol
 - Hawliau mynediad cyfyngedig i'r heddlu a phobl awdurdodedig gan y bydd y safle'n cael ei ystyried ar y cyfan yn un preifat ac yn un nad yw'n agored i'r cyhoedd
 - Esemptiad o rai pwerau sydd gan yr heddlu i gau safle ar unwaith oherwydd anhrefn a sŵn gan eu bod yn gweithredu dan eu codau disgyblaeth a'u rheolau hwy
 - Esemptiad o orchmynion gan y llys ynadon i gau'r holl safleoedd trwyddedig mewn ardal pan fo anhrefn yn digwydd neu pan fo disgwyl iddo ddigwydd

10.0 | Atodlen Weithredu

- 10.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn ymrwymedig i weithio mewn partneriaeth gyda deiliaid trwydded/tystysgrif, a'r holl awdurdodau cyfrifol a phartion cysylltiedig i sicrhau ar y cyd bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu hybu.
- 10.2** Gan fod rhaid i atodlenni gweithredu gynnwys digon o wybodaeth i allu cynnal asesiad priodol o'r cais, mae'r awdurdod trwyddedu yn argymhell bod ymgeiswyr yn ceisio cyngor priodol cyn cyflwyno cais, gan felly leihau'r posibilrwydd o sylwadau perthnasol a/neu'r angen am wrandawriad.
- 10.3** Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr fynd i'r afael â'r pedwar amcan trwyddedu yn eu hatodlen weithredu a rhoi sylw dyledus i'r math o safle, y gweithgareddau trwyddedadwy a fydd yn cael eu darparu, y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.
- 10.4** Mae gwybodaeth eglur yn hanfodol fel bod Awdurdodau Cyfrifol a phartion cysylltiedig yn gallu ffurfio barn briodol o ran pa fesurau all fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu'n cael eu cyflawni, er enghraifft disgrifiad o'r math o ddawns, cerddoriaeth.
- 10.5** Bydd y mesurau/camau a nodir o fewn yr Atodlen Weithredu i hybu'r amcanion trwyddedu'n dod yn amodau trwydded sydd wedi'u cynnwys yn y drwydded safle neu'r dystysgrif safle clwb neu'r hysbysiad.
- 10.6** Gall yr awdurdod trwyddedu, yn ôl ei ddisgresiwn ac yn dilyn hysbysu'r ymgeisydd, awdurdodau cyfrifol a phartion cysylltiedig, addasu mesurau/camau arfaethedig er mwyn i amodau gael eu deall yn glir, bod yn orfodadwy ac yn berthnasol i'r gweithgareddau trwyddedadwy yr ymgeisir am drwydded neu dystysgrif ar eu cyfer.

11.0 | Oriau Gweithredu

- 11.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod bod oriau cau penodedig ac artiffisial o gynnar mewn rhai ardaloedd yn gallu arwain at anhrefn a thwrw ar y strydoedd pan fo niferoedd mawr o bobl yn tueddu i adael safleoedd trwyddedig ar yr un pryd.
- 11.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu, yn unol â'r Canllawiau yn amcanu, trwy oriau trwyddedu hirach, at greu sefyllfa lle mae pobl sy'n gadael safleoedd trwyddedig yn gwasgaru'n raddol. Ni fydd oriau cau rhagbenodedig neu wasgarog ar gyfer ardaloedd arbennig yn rhan o'r Polisi a dim ond ar ôl cael Sylwadau Perthnasol y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried cyfyngu ar oriau masnachu.
- 11.3** Bydd siopau ac archfarchnadoedd yn cael gwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle ar yr oriau y maent ar agor fel arfer yng nghwrs eu busnes. Gellir cyfyngu ar oriau pan geir Sylwadau Perthnasol gan awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â siopau unigol y mae'n hysbys eu bod yn ffocws ar gyfer anhrefn a thwrw.
- 11.4** Wrth ystyried ceisiadau am drwyddedau / tystysgrifau safle, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried ceisiadau ymgeiswyr am oriau terfynol yng ngoleuni'r canlynol:
- Yr effaith bosibl ar amwynder yr ardal
 - Cymeriad neu swyddogaeth ardal arbennig
 - Natur y gweithgareddau arfaethedig a fydd yn cael eu darparu yn y safle
 - Cysylltiadau cludiant ar gyfer gwasgaru cwsmeriaid
- 11.5** Bydd yr oriau terfynol yn cael eu cymeradwyo fel arfer lle gall yr ymgeisydd ddangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar unrhyw un o'r uchod. Gall yr Awdurdod Trwyddedu bennu awr derfynol gynharach lle mae'n ystyried bod hyn yn briodol.
- 11.6** Lle mae safleoedd wedi'u lleoli ar bwys ardaloedd preswyl yna gall amodau llymach mewn perthynas â rheoli sŵn fod yn berthnasol, ond ni ddylai hyn gyfyngu ar oriau agor ar yr amod y cydymffurfir â'r amodau gofynnol. Wrth ystyried hyn gall yr awdurdod trwyddedu ystyried nad yw'r oriau y mae safle ar agor o anghenraid yr un fath â'r oriau pan all gweithgaredd trwyddedig fod yn digwydd.
- 11.7** Ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn gorfodi deiliad trwydded safle neu dystysgrif safle clwb i aros ar agor trwy gydol y cyfnod a ganiateir gan y drwydded neu'r dystysgrif sy'n awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy, a lle y bo'n ymarferol dylai safleoedd hysbysebu eu horiau gweithredu craidd.

12.0 | Gorfodi, Adolygiadau a Phwerau

- 12.1** Bwriad yr Awdurdod Trwyddedu yw sefydlu a chynnal protocolau gorfodi rhagweithiol ac adweithiol gyda Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau gorfodi eraill. Byddir yn defnyddio dull cymesur i dargedu gweithgareddau trwyddedig y cytunwyd eu bod yn broblem ac yn risg uchel a bod angen rhoi mwy o sylw iddynt, a dull llai manwl ar gyfer safleoedd yn yr ardal sy'n cael eu rhedeg yn dda ac yn achosi risg is. Felly mae protocol ar y rôl orfodi ar y cyd rhwng yr awdurdod trwyddedu a Heddlu Gogledd Cymru wedi cael ei sefydlu.
- 12.2** Mae Adolygu trwyddedau neu dystysgrifau'n fodd allweddol i ddiogelu'r gymuned lle nad yw'r Amcanion Trwyddedu'n cael eu cyflawni'n llawn. Bodolaeth y system Adolygu ddylai alluogi'r Awdurdod Trwyddedu i gymhwyso biwrocratiaeth lai manwl wrth ystyried rhoi neu amrywio trwydded neu dystysgrif pan fo problemau mewn perthynas â'r Amcanion Trwyddedu'n codi'n ddiweddarach mewn perthynas ag unrhyw safleoedd.
- 12.3** Gall adolygiad gael ei gychwyn gan Awdurdod Cyfrifol neu Barti Cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod Trwyddedig yn cyfeirio at Ganllawiau wrth asesu pa un a yw unrhyw Sylwadau Perthnasol gan Bartion Cysylltiedig yn amherthnasol, blinderus, gwamal neu ailadroddus.
- 12.4** Bydd disgwyl i Bersonau Awdurdodedig ac Awdurdodau Cyfrifol roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwydded / tystysgrif o'u pryderon am broblemau a adnabuwyd ar y safleoedd dan sylw a'r angen am welliant. Mae methiant i ymateb i rybuddion o'r fath yn debygol o arwain at benderfyniad i ofyn am adolygiad.
- 12.5** Ym mhob achos bydd angen i dystiolaeth ddigonol i ategu'r honiadau gael ei chyflwyno i'r Awdurdod Trwyddedu.
- 12.6** Er nad yw Deddf 2003 yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arolygiadau o safleoedd, byddant yn digwydd yn ôl disgresiwn y Swyddogion Trwyddedu sydd â gorchwyl i gyflawni'r rôl hon a byddant yn digwydd os bernir bod hynny'n angenrheidiol. Bydd safleoedd a adnabuwyd fel rhai 'risg uchel' yn cael eu harolygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn rheoli adnoddau'n effeithlon a bod 'gorfodi effeithiol' yn cael ei gyfeirio at 'safleoedd sy'n broblem'.
- 12.7** Lle y bo angen, bydd camau gorfodi'n cael eu cymryd yn unol â Pholisi Gorfodi'r Gwasanaethau Rheoleiddio ac unrhyw Femorandwm Dealltwriaeth. Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi sefydlu protocolau hefyd gyda Heddlu Gogledd Cymru ac Awdurdodau Cyfrifol eraill ar gyfer materion gorfodi i sicrhau bod staff a Swyddogion Heddlu sy'n ymwneud yn fynych â gorfodi cyfraith Trwyddedu ac arolygu safleoedd trwyddedig yn cael eu lleoli'n effeithiol.

- 12.8** Mae siart llif (sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1) wedi cael ei datblygu gan yr Awdurdod Trwyddedu ac Awdurdodau Cyfrifol a bydd yn cael ei dilyn os bydd cwyn yn cael ei chyfleu neu safle sy'n broblem yn cael ei adnabod. Bydd y siart hon yn cael ei dilyn dan bob math o amgylchiadau i sicrhau parhad a thegwch ar gyfer pob deiliad trwydded.
- 12.9** Lle y bo'n angenrheidiol gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried defnyddio hysbysiadau/gorchmynion cau safle dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.
- 12.10** Mae diwygiadau i'r Ddeddf Trwyddedu trwy Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010 yn rhoi'r pŵer i gynghorau atal trwyddedau safleoedd a thystysgrifau safle clwb lle nad yw'r ffi flynyddol sy'n ofynnol wedi cael ei thalu.
- 12.11** Lle nad yw ffi flynyddol wedi cael ei thalu erbyn y dyddiad olaf, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn hysbysu'r deiliad trwydded neu dystysgrif yn ysgrifenedig:
- Y bydd y drwydded neu'r dystysgrif yn cael ei hatal ymhen 7 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad
 - Na fydd yr ataliad yn dod yn weithredol os bydd y ffi'n cael ei thalu cyn y dyddiad atal

13.0 | Y Broses Drwyddedu

Amodau Trwydded

- 13.1** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn osgoi gosod amodau anghymesur a gorlethol mewn trwyddedau safle / tystysgrifau safle clwb.
- 13.2** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i gronfeydd enghreifftiol o amodau a bydd yn cynnwys amodau fel y bo'n briodol gan ystyried amgylchiadau pob achos unigol. Bydd yr amodau enghreifftiol yn ymdrin â phedair egwyddor Deddf Trwyddedu 2003 –
- Troseddau ac anhrefn
 - Diogelwch y cyhoedd
 - Niwsans cyhoeddus
 - Amddiffyn plant rhag niwed
- 13.3** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu hefyd yn ystyried dogfennau cyfeirio a restrir yn yr Atodiadau wrth Ganllawiau'r Swyddfa Gartref, er na fyddant yn cael eu defnyddio fel amodau safonol.
- 13.4** Wrth gynnwys amodau bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymwybodol hefyd o'r angen i osgoi mesurau a allai atal perfformiadau byw ar ffurf cerddoriaeth, dawns neu theatr trwy orfodi costau anuniongyrchol o natur sylweddol.
- 13.5** Wrth benderfynu ynghylch ceisiadau bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref. Yn arbennig, bydd yn rhoi ystyriaeth i'r angen i roi anogaeth ar gyfer perfformiadau byw ar ffurf cerddoriaeth, dawns a theatr ac i hybu'r rhain er budd diwylliannol ehangach y gymuned gyfan. Os gwneir sylwadau ynghylch y potensial ar gyfer twrw cyfyngedig mewn cymdogaeth arbennig, bydd ystyriaeth yr Awdurdod Trwyddedu yn cael ei chydbwysu â'r manteision ehangach i'r gymuned.

Gweinyddu – Y Broses Ymgeisio

- 13.6** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn derbyn bod yn rhaid iddo beidio ag ymyrryd yn y penderfyniad ynglŷn â phwy yw'r unigolyn mwyaf priodol i ymgeisio am drwydded safle / tystysgrif safle clwb neu i ddal un o'r rhain. Fodd bynnag, dim ond ceisiadau a wnaed yn y ffurf ragnodedig y bydd yn eu derbyn.
- 13.7** Gall unrhyw unigolyn gyflwyno sylwadau (sy'n gwrthwynebu neu'n cefnogi) i Gyngor yr Awdurdod Trwyddedu ynglŷn â chais am drwydded safle neu dystysgrif safle clwb neu amrywiad i un o'r rhain.

- 13.8** Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr unigol fynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu yn eu Hatodlen Weithredu gan ystyried y math o safle, y gweithgareddau trwyddedadwy a fydd yn cael eu darparu, y gweithdrefnau gweithredol, natur y lleoliad ac anghenion y gymuned leol.
- 13.9** Bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i'w gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw bolisiâu cynllunio a chludiant, strategaethau twristiaeth a diwylliannol a mentrau atal troseddau lleol sy'n berthnasol ac i fod wedi ystyried y rhain lle y bo'n briodol wrth lunio'u hatodlen weithredu.
- 13.10** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod y cyngor a gafwyd gan y Swyddfa Gartref, sef na ddylid caniatáu i farn y lleiafrif llafar fod yn drech na buddiannau cyffredinol y gymuned.

Cyfyngu

- 13.11** Gall cyfyngu fod yn ffactor allweddol wrth geisio dod o hyd i gyfaddawd rhesymol cyn neu ar ôl i gais gael ei wneud.
- 13.12** Pan ofynnir iddo wneud hynny cyn i gais gael ei gyflwyno, neu pan fo'r Awdurdod Trwyddedu yn canfod ar ôl i gais gael ei gyflwyno bod sylw'n berthnasol, bydd cyfarfod cyfyngu rhwng y partion perthnasol yn cael ei awgrymu a'i gadeirio'n ddiuedd gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.
- 13.13** Dan bob math o amgylchiadau, ar ôl i gais gael ei dderbyn bydd canlyniad y cyfarfod cyfyngu'n cael ei bennu gan Is-bwyllgor Trwyddedu.

14.0 | Yr Is-bwyllgor Trwyddedu

- 14.1** Un o'r prif egwyddorion sy'n tanategu Deddf Trwyddedu 2003 yw y dylai'r swyddogaethau trwyddedu sydd wedi'u cynnwys yn y Ddeddf gael eu dirprwyo ar lefel briodol i sicrhau gwasanaeth effeithlon a chost-effeithiol.
- 14.2** Mae Conwy fel yr Awdurdod Trwyddedu yn ymrwymedig i egwyddor dirprwyo ei bwerau er mwyn sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni ac mae wedi trefnu bod ei swyddogaethau trwyddedu'n cael eu cyflawni yn unol â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.
- 14.3** Mae'r Ddeddf ei hun yn creu rhagdybiaeth y bydd ceisiadau'n cael eu caniatáu oni bai y gwneir Sylw Perthnasol (gwrthwynebiad). Lle caiff swyddogaeth ei dirprwyo i Swyddog, y Swyddog hwnnw fydd yn gyfrifol am gynnal cyswllt rhwng yr ymgeiswyr, Partïon Cysylltiedig a'r Awdurdodau Cyfrifol er mwyn sicrhau bod unrhyw drwydded a roddir yn cynnwys unrhyw amodau y cytunwyd arnynt neu sy'n orfodol.
- 14.4** Lle cyflwynir gwrthwynebiadau, yna gall un o Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu gysylltu â/cyfyngu rhwng yr ymgeisydd, Partïon Cysylltiedig a'r Awdurdodau Cyfrifol i weld a oes 'setliad' yn bosibl er mwyn goresgyn unrhyw wrthwynebiadau, (cyfeirir at 13.13).
- 14.5** Er y gall Gwrandawiadau ar gyfer Ceisiadau am Drwydded sy'n cael eu Herio ac Adolygiadau fod yn lled-farnwriaethol o ran eu natur, bydd y Pwyllgor (yr Is-bwyllgor) yn ceisio cadw'r trafodion mor anffurfiol â phosibl. Mae angen rhywfaint o ffurfioldeb er mwyn sicrhau bod y partïon yn cael gwrandawriad teg. Bydd gofynion gweithdrefnol yn cael eu sefydlu i sicrhau bod yr holl bartïon yn gallu mynegi eu barn yn agored ac yn deg. Mae gweithdrefn y Pwyllgor (yr Is-bwyllgor) yn chwilysaidd yn hytrach nag yn wrthwynebol ac er bod hawl gan ymgeiswyr, Partïon Cysylltiedig ac Awdurdodau Cyfrifol i ddod â chynrychiolaeth gyfreithiol gyda hwy os ydynt yn dymuno, nid yw hyn yn ofynnol nac yn angenrheidiol ar unrhyw gyfrif.
- 14.6** Er bod y Pwyllgor (yr Is-bwyllgor) yn cwrdd yng ngŵydd y cyhoedd fel arfer, mae ganddo'r pŵer i wrando rhai ceisiadau penodol yn breifat. Fodd bynnag, bydd y Pwyllgor wastad yn gwneud ei benderfyniad yn breifat. Fel arfer, bydd dyfarniad y Pwyllgor (yr Is-bwyllgor) yn cael ei wneud yn hysbys i'r cyhoedd ar ddiwedd y Gwrandawriad ynghyd ag amlinelliad o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
- 14.7** Mae'n rhaid i apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor Trwyddedu gael eu gwneud i'r llys ynadon o fewn 21 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod

y cafodd yr apelydd ei hysbysu gan yr awdurdod trwyddedu ynghylch y penderfyniad y mae'n apelio yn ei erbyn.

Trefn a Argymhellir ar gyfer Dirprwyo Swyddogaethau

Mater yr ymdrinnir ag ef	Pwyllgor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
Cais am drwydded bersonol		Os yw'r Heddlu'n gwrthwynebu	Os nad oes gwrthwynebiad
Cais am drwydded bersonol gydag euogfarnau sydd heb eu disbyddu		Pob achos	
Cais am drwydded safle/ tystysgrif safle clwb	Os yw'r sylw'n ymwneud ag effaith gronnol	Os gwnaed sylw perthnasol	Os na wnaed sylw perthnasol
Cais am ddatganiad dros dro	Os yw'r sylw'n ymwneud ag effaith gronnol	Os gwnaed sylw perthnasol	Os na wnaed sylw perthnasol
Cais i amrywio trwydded safle/ tystysgrif safle clwb	Os yw'r sylw'n ymwneud ag effaith gronnol	Os gwnaed sylw perthnasol	Os na wnaed sylw perthnasol
Cais i amrywio'r goruchwylydd safle dynodedig		Os yw'r Heddlu'n gwrthwynebu	Pob achos arall
Cais i roi'r gorau i fod yn oruchwylydd safle dynodedig			Pob achos
Cais i drosglwyddo trwydded safle		Os yw'r Heddlu'n gwrthwynebu	Pob achos arall
Ceisiadau ar gyfer awdurdodau interim		Os yw'r Heddlu'n gwrthwynebu	Pob achos arall
Cais i adolygu trwydded safle / tystysgrif safle clwb		Pob achos	
Penderfynu a yw cwyn yn amherthnasol, yn wamal, yn flinderus a.y.b.			Pob achos
Penderfyniad i wrthwynebu pan fo'r awdurdod lleol yn un o'r ymgynghoreion a phan nad yr awdurdod lleol yw'r awdurdod perthnasol sy'n ystyried y cais		Pob achos	

Mater yr ymdrinnir ag ef	Pwyllgor Llawn	Is-bwyllgor	Swyddogion
Penderfyniad ynghylch gwrthwynebiad gan yr Heddlu i hysbysiad digwyddiad dros dro		Pob achos	

15.0 | Ystyriaethau Arbennig

- 15.1** Wrth lunio'r datganiad hwn o bolisi trwyddedu, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cydnabod yr angen i drin pob ymgeisydd a chais yn ôl ei rinweddau ei hun. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gwneud eithriadau penodol:
- 15.2** Ni fydd y galw masnachol am safle ychwanegol (yn wahanol i effaith gronnol) yn fater i'r Awdurdod Trwyddedu.
- 15.3** Ni fydd diwedd penodedig neu ragbenodedig i weithgareddau trwyddedadwy neu oriau cau penodedig neu ragbenodedig ar gyfer safle mewn ardal benodol yn rhan o'r polisi hwn ac ni fydd unrhyw gyfyngiad ar yr oriau y gall safle weithredu ond yn cael ei ystyried lle mae'r awdurdod trwyddedu o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i hybu'r amcanion trwyddedu.


2.0 | Y Gofrestr Trwyddedu

- 2.1** Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnal cofrestr trwyddedu ar-lein y gellir ei gweld yn www.conwy.gov.uk.
- 2.2** Gellir gweld ceisiadau trwy apwyntiad yn y Swyddfeydd Dinesig, Abergele Road, Bae Colwyn, LL29 8AR, 01492 575226, licensing@conwy.gov.uk.

Atodiad 1



TREFN ADOLYGU EIDDO TRWYDDEDIG DRWY DDATRYS PROBLEMAU FEL GRŴP



Ar unrhyw lefel, yn dibynnu ar haeddiannau'r achos, gellir penderfynu gwneud cais am adolygu trwydded eiddo. Mae symud ymlaen drwy'r gwahanol gamau yn broses ddewisol a lluniwyd y siart uchod fel templed ar gyfer monitro cynnydd a chadw llygad ar Eiddo Trwyddedig traferthus, gyda'r broses yn arwain yn y pen draw at adolygu'r drwydded.


Atodiad 2

ALCOHOL AC IECHYD YNG NGHYMRU

Mae'r defnydd o alcohol a'i ganlyniadau yn parhau i fod yn her iechyd cyhoeddus fawr yng Nghymru, yn y DU ac mewn mannau eraill. Y defnydd niweidiol o alcohol yw un o'r pum prif ffactor risg ar gyfer clefydau, anabledd a marwolaeth ledled y byd.

Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi [Alcohol ac iechyd yng Nghymru 2014](#), gan ddiweddarau ac ymhelaethu ar yr adroddiad blaenorol a ryddhawyd 5 mlynedd yn ôl. Dyma rai o'r negeseuon allweddol:

- Alcohol yw un o'r prif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru gyda thua 1,500 o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol bob blwyddyn (1 o bob 20 o'r holl farwolaethau).
- Mae yfed ymysg plant a phobl ifanc yn parhau i beri pryder gydag 1 o bob 6 o fechgyn ac 1 o bob 7 o ferched 11-16 oed yng Nghymru yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos. Mae tua 400 o bobl ifanc o dan 18 oed yn cael eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer cyflyrau a achoswyd gan alcohol bob blwyddyn, ond mae'r gyfradd wedi bod yn gostwng ers nifer o flynyddoedd.
- Yn gyffredinol, mae cyfraddau yfed alcohol wedi lleihau ac mae oedolion o dan 45 oed nawr yn yfed llai. Er bod y gostyngiad hwn yn newyddion da, mae'n cuddio arferion yfed cyson neu gynydd ymysg y rhai dros 45 oed.
- Mae cysylltiad cryf rhwng marwolaethau a derbyniadau i'r ysbyty oherwydd alcohol a chyfraddau amddifadedd ac mae'r cyfraddau yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn llawer uwch nag yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf. Nid oes unrhyw arwydd o welliant yn y bwch anghydraddoldeb mewn marwolaethau dros gyfnod o amser.



Mae alcohol yn cyflawni rôl bwysig a chadarnhaol mewn bywyd cymdeithasol a theuluol ac yn cyfrannu at gyflogaeth a datblygu economaidd yn lleol. Fodd bynnag, ni ddylai traddodiadau cymdeithasol a manteision economaidd gelu'r ffaith bod alcohol yn sylwedd gwenwynig a all gael effaith niweidiol ar iechyd a lles corfforol a meddyliol.

LEFELAU A PHATRYMAU YFED

Nid oes lefel yfed sy'n sicr o fod yn ddiogel, ond mae yfed llai na'r terfynau dyddiol argymelledig yn golygu bod y risgiau o niwed i iechyd yn isel. Nid yw yfed llai na'r lefelau risg is hyd yn oed yn ddoeth dan rai amgylchiadau. Ewch at y wefan www.drinkwisewales.org.uk.

Nid dim ond swm yr alcohol a gaiff ei yfed sy'n cynyddu'r risg o niwed. Mae goryfed mewn pyliau, sy'n cyfeirio at batrwm yfed lle mae unigolyn yn yfed o leiaf ddwywaith y swm argymelledig dyddiol o alcohol mewn un sesiwn yfed, yn gallu achosi gwenwyno aciwt ac arwain at broblemau megis damweiniau, anaf a thrais. Mae goryfed mewn pyliau, sy'n fwy cyffredin ymhlith grwpiau oedran iau, yn aml yn gysylltiedig ag 'yfed ymlaen llaw'.

Mae yfed ymlaen llaw yn derm sy'n cyfeirio at sefyllfa lle mae pobl, yn enwedig pobl ifanc, yn yfed alcohol gartref neu mewn strydoedd cyn mynd ymlaen i dafarndai a chlybiau. Mae wedi bod yn gysylltiedig â chymeriant alcohol uwch ar y cyfan a mwy o debygolrwydd o fod mewn digwyddiad treisgar. Mae pobl yn yfed alcohol ymlaen llaw am ei fod yn llawer rhatach i'w brynu yn yr archfarchnad neu siop diodydd trwyddedig arall nag mewn tafarn neu far.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried sylwadau gan gyrff iechyd sy'n gweithredu fel awdurdodau cyfrifol. Gall y gyrff iechyd ddarparu gwybodaeth sy'n berthnasol i hybu'r amcan trwyddedu o ran diogelwch y cyhoedd, sy'n cynnwys atal damweiniau ac anafiadau a niweidiau uniongyrchol eraill a all ddeillio o yfed alcohol megis bod yn anymwybodol neu wenwyn alcohol.

Er enghraifft, gall meddwdod arwain at ddamweiniau ac anafiadau o ganlyniad i drais sy'n arwain at fynd i adrannau achosion brys a defnyddio gwasanaethau ambiwlans. Mewn rhai achosion, bydd y rhain hefyd yn cynnwys mynd yn groes i'r amcan trwyddedu o ran troseddau ac anhrefn.

Mewn perthynas ag amddiffyn plant rhag niwed mae dyletswydd i'w hamddiffyn rhag niwed moesol, corfforol a seicolegol ac felly mae llawer o botensial i gyrff iechyd ychwanegu gwerth. Gall ymweliadau ag adrannau achosion brys sy'n gysylltiedig ag alcohol ymhlith rhai dan 18 fod yn berthnasol i'r amcan trwyddedu o ran amddiffyn plant rhag niwed a bydd gwerthu alcohol i rai dan oed neu drwy ddirprwy yn dwyn goblygiadau i'r amcan o ran troseddau ac anhrefn a'r amcan o ran amddiffyn plant rhag niwed. Gall timau iechyd ddarparu tystiolaeth ategol, er enghraifft mewn perthynas â'r effeithiau y mae yfed alcohol yn eu cael ar gorff rhywun yn ei ardegau.

Mewn rhai ardaloedd, y prif rwystr i weithredu effeithiol gan gyrff iechyd fel awdurdod cyfrifol yw nad yw'r dystiolaeth y mae ei hangen arnynt i ategu sylwadau'n cael ei chasglu'n rheolaidd neu nad yw ar gael yn eu hardal. Mae Cyngor Wrecsam a'i bartneriaid, Ysbyty Maelor Wrecsam, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar brosiect peilot i wella'r modd y mae data'n cael ei gasglu a'i rannu. Bwriedir gweithredu'r prosiect hwn ledled Gogledd Cymru. Dylai'r data a gesglir fod o gymorth mawr i dargedu gwaith gorfodi lle mae ei angen, i oleuo polisi trwyddedu ac i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â thrwyddedu.

Atodiad 3

Amodau Gorfodol

1. Goruchwylwyr drysau (personél diogelwch trwyddedig)

Dim ond unigolion sydd wedi'u trwyddedu gan Awdurdod y Diwydiant Diogelwch ddylai gael eu defnyddio ar y safle i gyflawni gweithgareddau diogelwch, sy'n cynnwys gwarchod rhag:

- a) Mynediad neu feddiannaeth heb awdurdod (e.e. trwy oruchwylio drysau)
- b) Achosion o anhrefn
- c) Difrod

2. Amod gorfodol arall ar gyfer safleoedd cymunedol

Mae'n rhaid i bob gweithred i gyflenwi alcohol dan y Drwydded Safle gael ei chyflawni neu ei hawdurdodi gan y pwyllgor rheoli.

3. Dangos ffilmiau

Dylid cyfyngu ar dderbyn plant dan 18 i arddangosiadau ffilm a ganiateir dan amodau'r dystysgrif hon yn unol ag unrhyw argymhellion a wnaed:

- a) Gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain (BBFC) lle mae'r ffilm wedi cael ei dosbarthu gan y Bwrdd hwnnw, neu
- b) Gan yr Awdurdod Trwyddedu lle nad yw Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain wedi rhoi tystysgrif ddosbarthu, neu
- c) Lle mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi hysbysu'r clwb sy'n dal y dystysgrif bod adran 20(3) (b) (74(3) (b) ar gyfer clybiau) o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn berthnasol i'r ffilm.

4. Cyflenwi alcohol

4.1 Ni ellir cyflenwi alcohol dan y Drwydded Safle hon:

- Ar adeg pan nad oes Goruchwilydd Safle Dynodedig mewn perthynas â'r Drwydded Safle; neu
- Ar adeg pan nad yw'r Goruchwilydd Safle Dynodedig yn dal Trwydded Bersonol neu fod ei Drwydded Bersonol wedi'i hatal dros dro.

4.2 Mae'n rhaid i bob gweithred i adwerthu neu gyflenwi alcohol a gyflawnir dan y drwydded hon gael ei chyflawni neu ei hawdurdodi gan unigolyn sy'n dal Trwydded Bersonol.

4.3 Dylai'r unigolyn cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw staff ar safle perthnasol yn cyflawni, yn trefnu nac yn cyfranogi mewn unrhyw weithgareddau hyrwyddo anghyfrifol mewn perthynas â'r safle. Yn y paragraff hwn, mae hyrwyddo anghyfrifol yn golygu unrhyw un neu fwy o'r gweithgareddau canlynol, neu weithgareddau tebyg iawn, a gyflawnir at ddiben rhoi anogaeth i werthu neu

gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle mewn modd sy'n dwyn risg sylweddol o arwain neu gyfrannu at droseddau ac anhrefn, perygl i ddiogelwch y cyhoedd, niwsans cyhoeddus, neu niwed i blant:

- Gemau neu weithgareddau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion, neu'n annog unigolion, neu sydd wedi'u bwriadu i'w gwneud yn ofynnol i unigolion neu annog unigolion i wneud y canlynol:
- Yfed swm o alcohol o fewn terfyn amser (heblaw am yfed alcohol a werthwyd neu a gyflenwyd ar y safle cyn diwedd y cyfnod pan fo'r person cyfrifol wedi'i awdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol); neu
- Yfed cymaint o alcohol â phosibl (boed o fewn terfyn amser neu fel arall)
- Darparu symiau diderfyn neu amhenoddedig o alcohol yn rhad ac am ddim neu am bris penodedig neu ostyngol ar gyfer y cyhoedd neu grŵp a ddiffinnir gan nodwedd arbennig (heblaw am unrhyw ymgyrch hyrwyddo neu ddisgownt sydd ar gael i unigolyn mewn perthynas ag alcohol i'w yfed wrth fwyta pryd o fwyd wrth fwrdd, fel a ddiffinnir yn adran 159 o'r Ddeddf)
- Darparu alcohol am ddim neu am ostyngiad neu unrhyw beth arall fel gwobr i annog pobl i brynu ac yfed alcohol neu eu gwobrwyo am brynu ac yfed alcohol dros gyfnod o 24 awr neu lai
- Darparu alcohol am ddim neu am ostyngiad mewn perthynas â gwylio digwyddiad chwaraeon ar y safle, lle mae darparu alcohol yn y fath fodd yn ddibynnol ar:
- Ganlyniad ras, cystadleuaeth neu ddigwyddiad neu broses arall; neu
- Y tebygolrwydd y bydd neu na fydd unrhyw beth yn digwydd
- Gwerthu neu gyflenwi alcohol mewn cysylltiad â phosteri neu daflenni hyrwyddo ar, neu yn agos at, y safle y gellir yn rhesymol ystyried eu bod yn cydoddef, yn annog neu'n glamoreiddio ymddygiad gwrthgymdeithasol neu'n cyfeirio at effeithiau meddwdod mewn unrhyw ffordd ffafriol.

4.4 Dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei roi'n uniongyrchol gan un unigolyn i mewn i geg unigolyn arall (ac eithrio lle nad yw'r unigolyn arall hwnnw'n gallu yfed heb gymorth oherwydd anabledd).

4.5 Dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod dŵr tap am ddim yn cael ei ddarparu ar gais ar gyfer cwsmeriaid lle mae ar gael yn rhesymol.

4.6 (1) Dylai'r deiliad Trwydded Safle neu'r deiliad Tystysgrif Safle Clwb sicrhau bod polisi gwirio oedran yn weithredol ar y safle mewn perthynas â gwerthu neu gyflenwi alcohol.

(2) Mae'n rhaid i'r polisi ei gwneud yn ofynnol i unigolion yr ymddengys i'r unigolyn cyfrifol eu bod dan 18 oed (neu oed hŷn a nodir yn y polisi) ddangos os gofynnir, cyn y gweinir alcohol iddynt, ddogfennaeth adnabod sy'n cynnwys eu ffotograff, dyddiad geni a marc holograffig.

4.7 Dylai'r unigolyn cyfrifol sicrhau:

- Lle gwerthir neu lle cyflenwir unrhyw un o'r diodydd alcoholig canlynol i'w hyfed ar y safle (ac eithrio diodydd alcoholig a werthir neu a gyflenwir a hwythau wedi cael eu paratoi ymlaen llaw yn barod i'w gwerthu neu eu cyflenwi mewn cynhwysydd sydd wedi'i gau'n dynn) ei bod ar gael i gwsmeriaid yn y mesurau canlynol:
 - cwrw neu seidr: ½ pint
 - jin, rým, fodca neu chwisgi: 25ml neu 35ml; a
 - gwin llonydd mewn gwydr: 125ml;
 - bod cwsmeriaid yn cael eu gwneud yn ymwybodol bod y mesurau hyn ar gael

Atodiad 4

Newidiadau Deddfwriaethol Diweddar

Y Ddeddf Cerddoriaeth Fyw

Mae Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012 a Gorchymyn Deddf Trwyddedu 2003 (Disgrifiad o Adloniant) (Diwygio) 2013 yn cael gwared ar y gofyniad ar gyfer y canlynol:

- Arddangosiadau ffilm at ddibenion hysbysebu, gwybodaeth, addysg a.y.b.
- Arddangosiadau ffilm sy'n rhan o arddangosyn at ddibenion amgueddfa neu oriel gelf
- Cerddoriaeth boed yn fyw neu wedi'i recordio, sy'n eilbeth i weithgareddau eraill nad oes angen trwydded ar eu cyfer
- Cerddoriaeth fyw fel a ganlyn:
 - Cerddoriaeth fyw sydd wedi'i seinchwyddo rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl ar safle a awdurdodwyd i werthu alcohol i'w yfed ar y safle
 - Cerddoriaeth fyw sydd wedi'i seinchwyddo rhwng 8am ac 11pm o flaen cynulleidfaoedd o ddim mwy na 200 o bobl mewn gweithleoedd nad ydynt wedi'u trwyddedu fel arall dan Ddeddf 2003 (neu a drwyddedwyd i ddarparu lluniaeth yn hwyr yn y nos yn unig)
 - Cerddoriaeth heb ei seinchwyddo rhwng 8am ac 11pm ym mhob lleoliad
- Defnyddio derbynyddion teledu neu radio i dderbyn a chwarae rhaglen yn gydamserol
- Unrhyw adloniant neu gyfleusterau adloniant mewn man addoli crefyddol
- Adloniant mewn ffeiriau gardd neu ddigwyddiadau tebyg oni bai fod elfen o enillion personol.
- Morys-ddawnsiau neu ddawnsio o fath tebyg neu berfformiad cerddoriaeth fyw heb ei seinchwyddo fel rhan o berfformiad o'r fath
- Adloniant ar gerbydau ffordd sy'n symud
- Perfformiad neu ddrama o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai rhwng 8am ac 11pm
- Perfformiad dawns o flaen cynulleidfa o 500 o bobl neu lai (oni bai ei fod yn adloniant perthnasol o fewn ystyr Atodlen 3, para 2a o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 h.y. mathau penodol o adloniant rhywiol) rhwng 8am ac 11pm
- Digwyddiadau chwaraeon dan do o flaen cynulleidfa o 1000 o bobl neu lai rhwng 8am ac 11pm.

Y Bil Mewnfudo

Mae'r Bil Mewnfudo, sy'n mynd trwy Senedd Prydain ar hyn o bryd, yn gosod cyfrifoldebau ychwanegol ar awdurdodau trwyddedu i weithredu lle canfyddir nad oes gan ddeiliaid trwydded hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. Bydd y Bil hefyd yn gosod goblygiadau ar ymgeiswyr, a chanllawiau cyffredinol yw'r nodiadau canlynol ar y cam hwn.

Trwyddedau Safle

- Adran newydd 13(4)(ha) sy'n dynodi'r Ysgrifennydd Gwladol fel awdurdod cyfrifol lle mae safle (nad yw'n llong) yn cael ei ddefnyddio, neu lle cynigir ei ddefnyddio, ar gyfer gweithgaredd trwyddedadwy.
- Adran newydd 16(2A) sy'n anghymhwysu trigolion y DU rhag ymgeisio am drwydded safle lle nad oes hawl gan y trigolyn i weithio yn y DU.
- Adran newydd 27(1A) a fydd yn achosi i drwydded safle ballu os yw deiliad y drwydded yn peidio â bod â hawl mwyach i weithio yn y Deyrnas Unedig ar adeg pan fo deiliad y drwydded yn preswyllo yn y Deyrnas Unedig (neu'n dechrau preswyllo yn y Deyrnas Unedig heb fod â hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig). Adran newydd 42(5ZA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeisydd hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch cais i drosglwyddo.
- Adran newydd 42(8) a (9) yn datgan "Where the Secretary of State is given notice under subsection (5ZA) and is satisfied that the exceptional circumstances of the case are such that granting the application would be prejudicial to the prevention of illegal working in licensed premises, the Secretary of State must give the relevant licensing authority a notice stating the reasons for being so satisfied. (9) The Secretary of State must give that notice within the period of 14 days beginning with the day on which the Secretary of State is notified of the application under subsection (5ZA)."
- Adran newydd 44(5)(b)(ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod trwyddedu, wrth ystyried cais i drosglwyddo trwydded safle a lle rhoddir yr hysbysiad dan adran 42(8) (h.y. gan yr Ysgrifennydd Gwladol), wrthod y cais os yw'n ystyried bod hynny'n briodol er mwyn atal gweithio anghyfreithlon mewn safleoedd trwyddedig.
- Adran newydd 45(2A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch penderfyniad i drosglwyddo trwydded os hysbysodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod yn gwrthwynebu dan yr adran newydd 42(8) a (9).
- Adran newydd 47(3A) sy'n anghymhwysu unrhyw berson sydd heb hawl i weithio yn y DU rhag ymgeisio am hysbysiad awdurdod interim.
- Adran newydd 48(2A) sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch yr holl geisiadau a gyflwynir am hysbysiad awdurdod interim. Lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i argyhoeddi bod amgylchiadau eithriadol yr achos yn golygu y byddai methu â chanslo'r hysbysiad awdurdod interim yn y fath fodd yn peryglu'r amcan i atal gweithio anghyfreithlon mewn safleoedd trwyddedig, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn hysbysu'r awdurdod trwyddedu gan nodi'r rhesymau.

Trwyddedau Personol

- Adran newydd 113(2A) sy'n mewnosod "trosedd mewnfudo" newydd.
- Isadrannau newydd 5-8 ar gyfer adran 113 sy'n cyflwyno "cosbau mewnfudo" newydd.
- Adran newydd 115(2A) a fydd yn achosi i drwydded bersonol beidio â bod mewn grym os yw deiliad y drwydded yn peidio â bod â hawl mwyach i weithio yn y Deyrnas Unedig.
- Adran newydd 120(5A) sy'n gosod gofyniad newydd ar yr awdurdod trwyddedu i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol lle mae ymgeisydd am drwydded bersonol wedi cydymffurfio â gofynion statudol (h.y. isadran 2(a) i (c)) ond nid isadran 2(d) (h.y. bod gan yr ymgeisydd droseddau perthnasol sy'n gysylltiedig â mewnfudo/y cafwyd yr ymgeisydd yn euog o drosedd tramor a.y.b.).

Lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i argyhoeddi y byddai rhoi'r drwydded yn peryglu'r amcan i atal gweithio anghyfreithlon mewn safleoedd trwyddedig, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, o fewn cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr hysbysiad dan isadran (5A), hysbysu'r awdurdod gan nodi'r rhesymau dros fod wedi'i argyhoeddi ynghylch hynny ("hysbysiad gwrthwynebu mewnfudo").

- Adran newydd 124(3A) a (3B) sy'n gosod gofyniad newydd ar yr awdurdod trwyddedu i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol lle cafwyd deiliad trwydded bersonol yn euog o drosedd sy'n gysylltiedig â mewnfudo wedi i'r drwydded gael ei rhoi.
- Lle mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i argyhoeddi y byddai parhad y drwydded yn peryglu'r amcan i atal gweithio anghyfreithlon mewn safleoedd trwyddedig, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, o fewn cyfnod o 14 diwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y cafodd yr Ysgrifennydd Gwladol yr hysbysiad dan isadran (3A), hysbysu'r awdurdod gan nodi'r rhesymau dros fod wedi'i argyhoeddi ynghylch hynny ("hysbysiad gwrthwynebu mewnfudo").

Gallwch ddarllen y Bil llawn yma: <http://www.publications.parliament...74/15074.pdf>

Y Ddeddf Dadreoleiddio

Esemptiadau ar gyfer Lluniaeth yn Hwyr yn y Nos

Mae Paragraff 2A yn Atodlen 2 o Ddeddf 2003 (a fewnosodwyd gan Ddeddf Dadreoleiddio 2015) yn rhoi pwerau i awdurdodau trwyddedu esemptio safleoedd, dan rai amgylchiadau penodol, o'r gofyniad i fod â thrwydded i ddarparu lluniaeth yn hwyr yn y nos. Mae'n well i benderfyniadau i esemptio gweithgareddau i gyflenwi lluniaeth yn hwyr yn y nos gael eu gwneud ar sail gwybodaeth leol. Felly mae'r pwerau'n caniatáu i awdurdodau trwyddedu ddewis cymhwyso esemptiad yn benodol lle maent yn meddwl y bydd o gymorth i fusnesau a lle nad oes problemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu anhrefn yn gysylltiedig ag economi hwyr y nos. Yn ogystal ag arbed costau diangen i'r busnesau dan

sylw, gall hyn hefyd roi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau trwyddedu o ran targedu eu hadnoddau'n fwy effeithiol.

Mae'r pwerau'n caniatáu i awdurdod trwyddedu perthnasol esemptio gweithgareddau i gyflenwi lluniaeth yn hwyr yn y nos os yw'n digwydd:

- ar neu o safle sydd wedi'i leoli'n gyfan gwbl mewn ardal ddynodedig;
- ar neu o safle sydd o fath dynodedig; neu
- yn ystod cyfnod dynodedig (gan ddechrau'n ddim cynharach nag 11.00pm a chan ddiweddu'n ddim hwyrach na 5.00am).

Wrth ddewis dynodi ardal arbennig fel un sydd wedi'i hesemptio, mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu perthnasol ddiffinio'r lleoliad, a all fod yn un o unrhyw faint.

Wrth ddewis dynodi categorïau arbennig o safleoedd fel rhai sydd wedi'u hesemptio, dim ond mathau o safleoedd a nodir yn y rheoliadau y gall awdurdod trwyddedu eu hesemptio, sef:

- ardaloedd gwasanaethau ar draffyrdd;
- gorsafoedd petrol;
- safleoedd yr awdurdod lleol (ac eithrio safleoedd domestig) oni bai fod digwyddiad yn cael ei gynnal a bod mwy na 500 o bobl yn bresennol ynddo;
- ysgolion (ac eithrio safleoedd domestig) oni bai fod digwyddiad yn cael ei gynnal a bod mwy na 500 o bobl yn bresennol ynddo;
- ysbytai (ac eithrio safleoedd domestig);
- safleoedd cymunedol (eglwys, capel, pentref, neuadd blwyf neu neuadd gymunedol neu adeilad arall tebyg) oni bai fod digwyddiad yn cael ei gynnal a bod mwy na 500 o bobl yn bresennol ynddo;
- safleoedd trwyddedig a awdurdodwyd i adwerthu alcohol i'w yfed ar y safle rhwng 11pm a 5am.

Nid oes rhaid i awdurdodau trwyddedu ddefnyddio'r esemptiadau o gwbl a gallant barhau i'w gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr lluniaeth yn hwyr yn y nos fod wedi'u trwyddedu. Fodd bynnag, dylai awdurdodau trwyddedu ystyried dadreoleiddio lle y bo'n briodol.

Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol

Nid yw deddfwriaeth ddrafft a/neu is-ddeddfwriaeth wedi cael ei chwblhau eto ar gyfer Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol ond rhagwelir y bydd gallu i grwpiau cymunedol a darparwyr llety sy'n fusnesau bychain ac sy'n darparu/gwerthu symiau cyfyngedig o alcohol wneud cais am Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol. Byddai'r Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol yn para am gyfnod o dair blynedd gyda'r posibilrwydd y gallai gwasanaeth lechyd yr Amgylchedd a'r Heddlu wrthwynebu o'r dechrau un.

Mae'r opsiynau a fydd o bosibl wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth yn cynnwys y canlynol:

- Gellir gwerthu alcohol rhwng 7am ac 11pm
- Bydd yr awdurdod trwyddedu yn cael ei hysbysu
- Bydd y ffi ragnodedig yn cael ei thalu
- Gall yr Heddlu, Awdurdod Iechyd y Cyhoedd a'r Awdurdod Trwyddedu wrthwynebu os bydd Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol yn tansilio'r amcanion trwyddedu. Lle mae problemau'n codi, gall yr heddlu ac awdurdod iechyd y cyhoedd wrthwynebu, a'r canlyniad fyddai bod yr Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol yn gallu cael ei ddirymu.
- Bydd gan yr Heddlu a swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu hawliau i fynd i mewn i ymchwilio lle mae defnyddwyr yn torri amodau'r Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol.
- Ni fydd hawl i wrandawriad neu apêl os caiff Hysbysiad Gwerthwyr Cymunedol ac Ategol ei ddirymu
- Mae'n rhaid i'r gweithgaredd gwerthu alcohol fod yn ategol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau gan y busnes.
- Gwerthu alcohol o un safle penodol.
- Alcohol i'w yfed ar y safle penodol
- Mae'n rhaid i'r gweithgaredd gwerthu alcohol fod gan neu ar ran grŵp cymunedol nad yw'n masnachu i wneud elw.
- Mae'n rhaid i'r gweithgaredd gwerthu alcohol fod yn ategol i ddigwyddiad cymunedol wedi'i drefnu.
- Gellir gwerthu alcohol o hyd at dri safle penodol.
- Gwerthu alcohol i'w yfed mewn digwyddiadau wedi'u trefnu sy'n cynnwys hyd at 300 o bobl

Atodiad 5

Rhestr Termiau

Adolygiad barnwrol – Mae'n cynnwys dim ond y rhai lle hysbysodd yr Uchel Lys y partïon ynghylch ei benderfyniad yn y cyfnod o amser a nodir.

Adolygiad diannod/ar frys – Gall prif swyddog yr heddlu wneud cais am adolygiad diannod/ar frys o **drwydded safle** oherwydd trosedd difrifol a/neu anhrefn ddifrifol dan a.53A o **Ddeddf Trwyddedu 2003**.

Adolygu – Yn dilyn rhoi **trwydded safle** neu **dystysgrif safle clwb** gall **awdurdod cyfrifol** neu **unigolyn arall** ofyn i'r awdurdod trwyddedu adolygu'r drwydded neu'r dystysgrif oherwydd mater sy'n codi ar y safle mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu.

Amodau – mae tri math o amod

1. **Amodau a Osodir** – sef amodau sy'n cael eu gosod gan yr awdurdod trwyddedu pan fo'n defnyddio'i ddisgresiwn ar ôl cael sylwadau perthnasol.
2. **Amodau Arfaethedig** – sef amodau sy'n cael eu cynnig gan yr ymgeisydd yn yr atodlen weithredu.
3. **Amodau Gorfodol** – sef amodau a ragnodir yn y Ddeddf ac sy'n cael eu cynnwys ym mhob trwydded safle neu dystysgrif safle clwb pan fo gweithgareddau trwyddedadwy penodedig yn digwydd.

Amrywiad (i drwydded safle) – Ceisiadau a wneir dan a.34 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i newid amodau **trwydded safle**, er enghraifft yr oriau agor, y gweithgareddau trwyddedadwy neu'r amodau. Caiff y ffi ar gyfer amrywio **Goruchwilydd Safle Dynodedig** ei rhagnodi yn y Ddeddf.

Amrywiad (i dystysgrif safle clwb) – Ceisiadau a wneir dan a.84 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i newid amodau **tystysgrif safle clwb**, er enghraifft y gweithgareddau clwb cymhwysol neu'r amodau.

Ardal effaith gronnol – Ardal y mae'r **awdurdod trwyddedu** wedi'i nodi yn ei ddatganiad o bolisi trwyddedu fel un sy'n orlawn o safleoedd trwyddedig a lle gallai 'effaith gronnol' unrhyw safleoedd trwyddedig ychwanegol effeithio'n andwyol ar yr amcanion trwyddedu statudol.

Awdurdod cyfrifol – Cyrff cyhoeddus y mae'n rhaid eu hysbysu ynghylch rhai ceisiadau penodol am **drwydded safle** neu **dystysgrif safle clwb** ac sydd â hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu. Maent yn cynnwys:

- yr awdurdod trwyddedu ac unrhyw awdurdod trwyddedu arall y mae rhan o'r safle wedi'i lleoli yn ei ardal,
- prif swyddog yr heddlu ar gyfer unrhyw ardal heddlu y mae'r safle wedi'i leoli ynddi,
- yr awdurdod tân ac achub ar gyfer unrhyw ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi,
- y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer unrhyw ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi,
- awdurdod gorfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a.y.b. 1974 ar gyfer unrhyw ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi,
- yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer unrhyw ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygredd i'r amgylchedd neu o niwed i iechyd dynol mewn unrhyw ardal y mae'r safle wedi'i leoli mewn perthynas â hi,
- corff sy'n cynrychioli'r rhai sydd, mewn perthynas ag unrhyw ardal o'r fath, yn gyfrifol am, neu sydd â budd mewn materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, ac sy'n gymwys i gynghori ynghylch materion o'r fath,
- mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyaeth sydd â swyddogaethau mewn perthynas â dyfroedd lle caiff y llong ei chlymu neu ei hangori neu unrhyw ddyfroedd y caiff ei hwylio iddynt, neu y cynigir ei hwylio iddynt, ar adeg pan fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy,
- yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am bwysau a mesurau mewn unrhyw ardal y mae'r safle wedi'i leoli ynddi.

Awdurdod trwyddedu – Yr awdurdod trwyddedu sy'n gyfrifol am drwyddedu alcohol, adloniant wedi'i reoleiddio a lluniaeth yn hwyr yn y nos.

Bandiau ffioedd – Wrth bennu swm ffi'r drwydded ar gyfer ceisiadau am **drwyddedau safle a thystysgrifau safle clwb** newydd ac am amrywiadau llawn i drwyddedau neu dystysgrifau, mae pob safle'n perthyn i fand yn seiliedig ar ei werth ardrethol. Ers cyflwyno Deddf 2003 tan 2012/13, mae'r ffioedd ymgeisio sy'n gysylltiedig â phob band ar gyfer trwydded neu dystysgrif newydd wedi bod fel a ganlyn: Band A (£100); Band B (£190); Band C (£315); Band D [dim lluosydd] (£450); trwydded safle Band D gyda lluosydd (£900); Band E [dim lluosydd] (£635); trwydded safle Band E gyda lluosydd (£1,905). Mae'r ffioedd blynyddol dilynol sy'n gysylltiedig â phob trwydded neu dystysgrif fel a ganlyn: Band A (£70); Band B (£180); Band C (£295); Band D [dim lluosydd] (£320); trwydded safle Band D gyda lluosydd (£640); Band E [dim lluosydd] (£350); trwydded safle Band E gyda lluosydd (£1,050).

Clwb cymhwysol – Mae'n rhaid bodloni nifer o feini prawf er mwyn ystyried clwb cymhwysol ar gyfer **tystysgrif safle clwb**. Y meini prawf yw:

- na all pobl, dan reolau'r clwb, gael eu derbyn yn aelodau na'u derbyn yn ymgeiswyr ar gyfer aelodaeth nac i unrhyw freintiau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth heb fwch o ddau ddiwrnod o leiaf rhwng eu henwebu ar gyfer aelodaeth a'u derbyn;
- bod y clwb wedi'i sefydlu ac yn cael ei redeg yn ddiwyll fel clwb;
- bod gan y clwb o leiaf 25 aelod; ac
- nad yw alcohol yn cael ei gyflenwi i aelodau ar y safle heblaw gan neu ar ran y clwb.

Gorchymyn ardoll hwyr y nos – Pŵer dewisol i awdurdodau trwyddedu dan adran 125 o **Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011**. Caiff ardoll hwyr y nos ei thalu gan y safleoedd hynny sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol yn hwyr yn y nos i godi cyfraniad tuag at gostau plismona economi hwyr y nos.

Gorchymyn cyfyngu ar alcohol yn gynnar yn y bore – Pŵer dan adran 119 o **Ddeddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** i wahardd gwerthu alcohol am gyfnod penodol rhwng 12am a 6am, os ystyrir bod hynny'n briodol i hybu'r amcanion trwyddedu.

Goruchwyllydd Safle Dynodedig – Fel arfer, y sawl sydd wedi cael cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am redeg y safle gan ddeiliad y **drwydded safle** fydd hwn. Mae'n ofynnol dan Ddeddf 2003 bod pob trwydded safle sy'n awdurdodi gwerthu alcohol yn nodi Goruchwyllydd Safle Dynodedig. Mae'n rhaid i'r Goruchwyllydd Safle Dynodedig fod yn ddeiliad **trwydded bersonol**. Yr unig eithriad yw ar gyfer safle cymunedol sydd wedi cyflwyno cais llwyddiannus i'r ALL i gael ei esemptio o'r gofyniad.

Gwerthiannau all-safle – Adwerthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle.

Gwerthiannau ar-safle – Adwerthu alcohol a chyflenwi alcohol (gan glybiau) i'w yfed ar y safle.

Gwrandawriad – Fe'i defnyddir yng nghyd-destun ceisiadau am **drwydded safle** neu **dystysgrif safle clwb** sy'n mynd i wrandawriad i benderfynu ynghylch ceisiadau am drwydded safle, am ddatganiadau dros dro, i amrywio trwydded safle, am dystysgrifau safle clwb, ac i amrywio dystysgrifau safle clwb.

Hysbysiad digwyddiad dros dro (TEN) – Hysbysiad dan a.100 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**, a ddefnyddir i awdurdodi gweithgareddau trwyddedadwy ar raddfa gymharol fach, yn amodol ar rai meini prawf a therfynau penodol. Mae'n cynnwys dim ond hysbysiadau a roddwyd yn gywir ac yn briodol yn y cyfnod a nodir h.y. nid yw'n cynnwys hysbysiadau a anfonwyd yn ôl am fod camgymeriadau ar y ffurflen. Mae hyn hefyd yn cynnwys hysbysiadau a dynnwyd yn ôl maes o law. Caiff y ffi ar gyfer Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ei rhagnodi yn y Ddeddf.

Ildio (trwydded) – Os yw deiliad trwydded yn dymuno'i hildio, gwneir hynny yn ôl y darpariaethau dan adran 28 (ar gyfer **trwydded safle**), adran 81 (ar gyfer **tystysgrif clwb**) ac adran 116 (ar gyfer **trwydded bersonol**).

Lluniaeth yn hwyr yn y nos – Darparu bwyd poeth neu ddiod boeth ar gyfer y cyhoedd, i'w fwyta ac yfed ar neu oddi ar y safle, rhwng 11pm a 5am neu gyflenwi bwyd poeth neu ddiod boeth i unrhyw unigolion rhwng yr oriau hynny ar neu o safle y mae gan y cyhoedd fynediad iddo.

Lluosydd – Caiff lluosyddion eu cymhwyso i safleoedd a ddefnyddir yn bennaf neu'n unig i gyflenwi alcohol i'w yfed ar y safle dan awdurdodiad **trwydded safle (bandiau ffioedd D ac E yn unig)**.

Mân amrywiad (i drwydded neu dystysgrif) – Ceisiadau a wneir dan a.41A neu a.86A o **Ddeddf Trwyddedu 2003** i wneud newidiadau risg-isel i amodau **trwydded safle** neu **dystysgrif safle clwb**. Caiff y ffi ar gyfer mân amrywiad ei rhagnodi yn y Ddeddf.

Pobl Awdurdodedig – Ystyr pobl awdurdodedig yw cyrff sydd wedi'u grymuso i gyflawni rolau arolygu a gorfodi dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Pobl eraill – Unrhyw unigolyn, corff neu fusnes y mae'n debygol yr effeithir arno o ganlyniad i roi **trwydded safle** neu **dystysgrif safle clwb** pan wneir cais. Gall pobl eraill gyflwyno sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu perthnasol a gall geisio adolygiad o drwydded safle neu dystysgrif safle clwb.

Sylwadau perthnasol – Sylwadau sy'n ymwneud ag effaith debygol rhoi **trwydded safle** neu **dystysgrif safle clwb** ar hybu'r amcanion trwyddedu, a wneir gan awdurdod cyfrifol neu unigolyn arall o fewn y cyfnod a ragnodir dan adran 17(5)(c) o'r Ddeddf, nad ydynt wedi cael eu tynnu'n ôl ac, yn achos sylwadau a gyflwynir gan bobl eraill, nad ydynt, ym marn yr awdurdod trwyddedu perthnasol, yn wamal nac yn flinderus.

Trwydded bersonol – Mae'n awdurdodi unigolyn i gyflenwi neu roi awdurdodiad i gyflenwi alcohol yn unol â **trwydded safle** dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Caiff y ffi ymgeisio ar gyfer trwydded bersonol ei rhagnodi yn y Ddeddf.

Trwydded safle – Mae'n awdurdodi defnyddio safle i werthu neu gyflenwi alcohol, darparu adloniant wedi'i reoleiddio neu ddarparu **lluniaeth yn hwyr yn y nos**, dan **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Mae hyn yn cynnwys trwyddedau safle â chyfyngiad amser. Mae ffi trwydded safle yn seiliedig ar werth ardrethol y safle. Mae ffioedd ymgeisio'n amrywio o £100 (Band A) i £1,905 (Band E gyda lluosydd); mae ffioedd blynyddol yn amrywio o £70 i £1,050.

Tystysgrif safle clwb – Mae'n awdurdodi **clwb cymhwysol** i gyflawni 'gweithgareddau clwb cynhwysol' dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hyn yn cynnwys tystysgrifau â chyfyngiad amser.

Wedi pallu (trwydded safle) – Lle mae **trwydded safle** wedi pallu oherwydd marwolaeth, analluogrwydd, ansolfedd a.y.b. deiliad y drwydded, fel a nodir dan a.27 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**. Nid yw'n cynnwys achosion lle'r oedd trwydded safle mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod wedi dod i ben ers hynny (e.e. digwyddiadau unigol).

Wedi pallu (tystysgrif clwb) – Lle mae **tystysgrif safle clwb** wedi pallu am ei fod mewn grym am gyfnod cyfyngedig, ond bod y cyfnod hwnnw wedi dod i ben ers hynny.

Wedi'i dirymu (trwydded bersonol) – Os ceir deiliad **trwydded bersonol** yn euog o drosedd yn ystod y cyfnod ymgeisio ar gyfer y drwydded, gellir dirymu'r drwydded dan a.124 o **Ddeddf Trwyddedu 2003**.

Wedi'i fforffedu (trwydded bersonol) – Ataliad yn dilyn gorchymyn llys dan a.129 o **Ddeddf Trwyddedu 2003** wedi'i nodi (a lle nad yw'r gorchymyn hwnnw wedi cael ei atal, tra bo apêl yn yr arfaeth dan a.129 (4) neu 130 o'r Ddeddf).